

# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 511 · Gorffennaf 2020 · Rhifyn Digidol · Am Ddim

## Dathlu gyrfa lawn a gwerthfawr ym Mhlas Ogwen

Pan ddechreuodd Amanda Roberts ar ei gwaith yng Nghartref Gofal Plas Ogwen ym 1982, prin y byddai wedi meddwl y byddai'n ymddeol oddi yno yn 2020 yn dilyn 38 o flynyddoedd o wasanaeth a degawd olaf ei chyfnod yno yn mynnu ei harweiniad fel Rheolwr. Arwyddocaol hefyd oedd mai gweithred olaf Amanda, o Stryd Hir, Gerlan, cyn ymddeol oedd gosod y Cartref dan fesurau caeth wythnos cyn i weddill y wlad fynd 'dan glo' ddiwedd Mawrth. Nid oes yr un achos o Covid-19 wedi ei gofnodi yn y Cartref, sy'n tystio i ymdrechion diflino yr holl aelodau staff dros y misoedd diwethaf.

Hiraeth a yrrodd Amanda i ddychwelyd i Ddyffryn Ogwen, yn dilyn treulio cyfnod cynnar ei gyrfa yn nyrsio yn Wrecsam. Pan ddychwelodd i'r pentref, bu'n ffodus o gael swydd ym Mhlas Ogwen a derbyn 'hyfforddiant' pellach dan lywyddiaeth rhai o ofalwyr profiadol y Cartref. Meddai Amanda:

"Ar y pryd, fi oedd aelod ieuengaf y staff a chefais y pleser o weithio gyda thîm o ofalwyr profiadol - i gyd yn ferched - a derbyn cyngor a sgiliau gwerthfawr ar gyfer gweithio yn y maes. Roedd y profiad hwnnw yn un yr wyf i'n hynod ddiolchgar ohono hyd heddiw, yn enwedig o gofio nad yw llawer o'r merched hynny yma efo ni erbyn hyn."

Roedd yn waith caled, meddai,

ond un a ddaeth â boddhad iddi wrth weld trigolion y cartref yn hapus eu byd ac yn derbyn gofal o safon. Wrth i'r profiad gynyddu, felly hefyd y cyfrifoldebau ac, ochr yn ochr â magu ei theulu, dringodd Amanda risiau gyrfa; o fod yn Gymhorthydd Gofal i fod yn Uwch-gymhorthydd, yn Is-reolwr ac yna'n Rheolwr ar y Cartref ddeng mlynedd yn ôl.

Wrth edrych yn ôl dros ei gyrfa, mae nifer o ddigwyddiadau - bach a mawr - yn sefyll yn y cof:

"Yn ogystal â dathlu cerrig milltir allweddol yn hanes Plas Ogwen, megis dathlu 25 mlynedd, 40 mlynedd a hanner can mlynedd ers sefydlu'r Cartref yn 1969, mae rhywun yn dueddol o gofio'r pethau hynny sydd wedi rhoi cymaint o foddhad i'r preswylwyr dros y blynyddoedd - y triplau bws mini, y cyngherddau niferus gan blant ysgolion yr ardal, y carnifalau a'r Ras Goets; heb anghofio priodas arbennig rhwng dau o'r trigolion.

"Mae fy niolch yn fawr i Gyngor Gwynedd am fuddsoddi yn fy nghyrfa a darparu hyfforddiant a chyfleon i mi ddatblygu yn y swydd. Mae fy niolch mwyaf yn cael ei neilltuo ar gyfer y tîm arbennig - yn gyn-aelodau ac aelodau presennol - sydd wedi darparu gofal arbennig i'r preswylwyr dros y blynyddoedd, ac yn parhau i wneud hynny dan yr amgylchiadau heriol presennol. Braint oedd cael gweithio ym



Amanda Roberts, ar ddiwrnod ei hymddeoliad, wedi 38 mlynedd o wasanaeth ym Mhlas Ogwen

Mhlas Ogwen, yn gwasanaethu fy milltir sgwâr a chynnal perthynas arbennig â henoed yr ardal."

Ar adeg pan fo'r argyfwng presennol yn peri i ni fel cymdeithas ail-edrych ac ail-ystyried y cyfraniad y mae'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn ei wneud i ni fel aelodau cymuned, braf yw gallu dathlu gyrfa lawn a gwerthfawr un o drigolion yr ardal yn y

maes. Braf hefyd yw deall y bydd y cyswllt lleol yn parhau yn y Cartref, wrth i Sharon Williams, o Lanllechid yn wreiddiol a bellach yn byw yn Nhregarth, gymryd yr awennau fel Rheolwr newydd Plas Ogwen.

Ar ran holl ddarllenwyr Llais Ogwan, diolch o galon am dy wasanaeth, Amanda, a phob dymuniad da iti ar gyfer ymddeoliad hir a hapus.

## Panel Golygyddol

Derfel Roberts

☎ 600965

derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn

☎ 600297

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

☎ 07815 093955

l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes

☎ 600853

nev\_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

☎ 07402 373444

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

☎ 601167

waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans

☎ 07713 865452

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans

☎ 07588 636259

owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd

☎ 07867 536102

carwynian@hotmail.com

## Swyddogion

CADEIRYDD:

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT ☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION:

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA ☎ 600853

nev\_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH ☎ 601415

garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:

Godfrey Northam, 4 Llwyn

Bedw, Rachub, Llanllechid

LL57 3EZ ☎ 600872

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y LLAIS DRWY'R POST:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN ☎ 600184

post@llaisogwan.com

## Golygydd y mis

Golygydd rhifyn y mis hwn gan  
Rhodri Llyr Evans.Y golygydd ym mis Medi fydd  
Dewi A. Morgan, Park Villa,  
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,  
Gwynedd, LL57 3DT.  
01248 602440.  
dewimorgan@live.co.ukPob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn,**  
**28 Awst** os gwelwch yn dda.  
Ni fydd angen casglu a dosbarthu gan mai  
rhifyn digidol fydd hwn.**DALIER SYLW: NID OES GWARANT**  
**Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD**  
**YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD**  
**CAU YN CAEL EI GYNNWYS.**Clwb Cyfeillion  
Llais OgwanYn anffodus, nid yw'n bosib i ni ddod at  
ein gilydd i dynnu'r gwobrau yn ôl ein  
harfer hyd nes y codir y gwaharddiadau  
coronafeirws presennol.Bryd hynny byddwn yn ôl-ddyddio'r  
gwobrau o fis Ebrill ymlaen.BYSUS  
*D. J. Owens*  
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER  
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -  
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTIŌN AC ATÍ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY  
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

## Modurdy Central

M.O.T. ar gael  
Hefyd  
Trwsio a Gwasanaeth  
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda  
☎ 601031

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn  
yn swyddfa'r deillion, Bangor  
**01248 353604**Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth  
â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r  
Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r  
canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415

Neville Hughes ☎ 600853

## Rhoddion i'r Llais

£5.00 Vera Davies, Dolgoch, Bethesda.  
£75.00 Siân Gwenllian, Aelod Cynulliad  
dros Arfon.

Diolch yn fawr

Archebu  
trwy'r  
post

Gwledydd Prydain – £22

Ewrop – £30

Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,  
Gwynedd LL57 3NN  
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

CYMRAEG

Sefydlwyd 1969

m.hughes  
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda  
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.  
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.  
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am  
waith diguro.

## JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiwyr

Symudol: 07747 628650  
Ffôn: 01248 600995

# Gwasanaeth Llyfrgell ar fin ei adfer yng Ngwynedd

Bydd pobl Gwynedd yn gallu archebu eitemau newydd i'w darllen a dychwelyd eu llyfrau llyfrgell yn fuan, dan gynllun adfer gwasanaethau llyfrgell y Cyngor.

Model newydd archebu a chasglu fydd y gwasanaeth hwn yn y lle cyntaf ac mae disgwyl y bydd y system yn weithredol o ddechrau mis Gorffennaf.

Bydd gofyn i unrhyw un sydd eisiau menthyg llyfrau neu eitemau eraill gysylltu gyda'r llyfrgell i'w archebu, neu archebu trwy'r catalog ar-lein yn y ffordd arferol. Bydd y llyfrgell wedyn yn cysylltu gyda'r defnyddwyr pan fydd yr eitemau yn barod i'w casglu, a threfnu amser ar gyfer gwneud hynny. Y bwriad fydd i ddefnyddwyr ddychwelyd eitemau trwy focsyst fydd y tu allan i bob llyfrgell fydd wedi ail-agor.

Meddai'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sydd â chyfrifoldeb am llyfrgelloedd: "Rydyan ni'n falch iawn o allu cadarnhau ein bwriad ar gyfer ail-gyflwyno elfen o'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn fuan.

"Mi wyddom fod llyfrau yn cynnig cysur arbennig i bobl o bob oed, ac felly mae'n bwysig ein bod yn gallu dechrau'r daith at gyflwyno'r gwasanaeth mewn modd newydd yn cynnwys y Gwasanaeth cludo i'r

cartref ar gyfer rheini sydd methu casglu o'r llyfrgelloedd.

"Yn amlwg, diogelwch defnyddwyr a staff ydi'r flaenoriaeth, a bydd ein llyfrgelloedd yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar sut i drin llyfrau llyfrgell, er mwyn helpu diogelwch a llesiant pobl.

"Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion am yr union drefniadau yn fuan, ac mae'n bwysig fod trigolion yn deall na fydd mod di ni ail-agor yr adeiladau Llyfrgell i'r cyhoedd yn y dyfodol agos. Ond rydan ni'n gobeithio y bydd y trefniadau newydd fydd ar waith o fis nesaf ymlaen yn cynnig cam yn ôl tuag at normalrwydd ar gyfer y nifer o bobl Gwynedd sy'n gwerthfawrogi ein gwasanaeth llyfrgelloedd."

Ar gyfer y sawl sy'n methu ag ymweld â'u llyfrgell i gasglu eitemau - am ba bynnag reswm - bydd modd archebu ar gyfer eu cludo i'r cartref. Bydd y Cyngor yn cynnig y gwasanaeth hwn i unrhyw un drwy Wynedd sydd ei angen. Bydd staff hefyd yn cysylltu gyda defnyddwyr y Gwasanaeth i'r Cartref presennol, er mwyn cychwyn ymweld â defnyddwyr presennol unwaith yn rhagor.

Mae modd archebu ystod o ddeunyddiau gan y Gwasanaeth Llyfrgell, yn cynnwys

llyfrau Print Bras a Llyfrau Llafar, yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y Cyngor hefyd yn trefnu i ddosbarthu Pecynnau Dechrau Da i deuluoedd babis a phlant bach. Mae Bag Books hefyd ar gael, sy'n wych ar gyfer rhoi profiad stori aml-synhwyraidd, ac sy'n addas i ddefnyddwyr gydag anawsterau neu anabledau dysgu. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd mae DVDs ar gael yn rhad ac am ddim, ac nid yw'r gwasanaeth yn codi dirwyon ar unrhyw eitem chwaith.

Bydd mwy o wybodaeth am y gwasanaeth newydd hwn yn cael ei gyhoeddi'n fuan, gyda manylion llawn am sut i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd.

Cofiwch hefyd bod modd i chi ymaelodi gyda Llyfrgelloedd Gwynedd i fenthyg e-lyfrau ac e-lyfrau llafar yn ogystal ag e-gylchgronau, yn Gymraeg a Saesneg, a hynny yn rhad ac am ddim drwy [www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell](http://www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell)

Mae llyfrgelloedd ar draws gogledd Cymru yn ymrwymo i ail-gyflwyno gwasanaethau llyfrgell gam wrth gam dros yr wythnosau nesaf yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd gwasanaeth 'Archebu a Chasglu', a Gwasanaethau Llyfrgell Cartref, ar gael ar draws y rhanbarth erbyn dechrau Gorffennaf.

## Hanes awduron Llyfr Mawr y Plant yn awr arlein

Mae un o glasuron llenyddiaeth plant Cymru yn parhau i ysbrydoli pobl ifanc a'r genhedlaeth h n wrth i hanes 'Llyfr Mawr y Plant' fod yn destun cyhoeddiad newydd sydd ar gael fel e-lyfr.

Traddodwyd darlith Goffa Dafydd Orwig yn Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen y llynedd, mewn cydweithrediad gyda Llyfrgelloedd Gwynedd a Phartneriaeth Ogwen. Testun y ddarlith oedd 'JO, JJ, J. Glyn, Jennie a Bob - cyfeillach ddiwylliannol ym Methesda 1924-40' a chafodd ei thraddodi gan Dr John Ll. W. Williams. Mae'n mynd ati i drafod sut y cafodd cymeriadau fel Wil Cwac Cwac a Siôn Blewyn Coch eu datblygu.

Meddai Nia Gruffydd, Rheolwr Llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd:

"Yn garedig iawn, cytunodd Dr Williams i fynd ati i ysgrifennu'r ddarlith ar gyfer ei chyhoeddi, ac rydym yn hynod ddyledus iddo am ei waith yn paratoi'r testun, ac am rannu nifer o luniau teuluol gyda ni i'w cynnwys, sy'n ychwanegu at hyfrydwch y ddarlith arbennig hon. Mae John Ll. W. Williams, wrth gwrs, yn fab i J.O. Williams, ac fe fu'n barod iawn i rannu llawer o luniau teuluol i'w cynnwys yn nhestun y ddarlith.

"Mae cyfraniad y cymeriadau yn nheilt y ddarlith yn aruthrol i ddiwylliant a llenyddiaeth Cymru, ac yn benodol i'w llenyddiaeth plant. Mor hyfryd oedd derbyn testun y ddarlith ysgrifenedig gan Dr Williams, a roddodd eu hanes ar gof a chadw, ac mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn falch iawn o allu hwyluso hyn. Ceir yma hanes difyr, hynod ddarllenadwy am y cyfeillgarwch rhwng y pump, y gymuned yn Nyffryn Ogwen yn y cyfnod, a'r dylanwadau a fu ar J.O Williams.

"Heb bobl fel J.O Williams a Jennie Thomas, ni fyddai rhai o

gymeriadau eiconig plentyndod nifer o blant Cymru yn bodoli, gan mai rhwng cloriau *Llyfr Mawr y Plant* yr ymddangosodd cymeriadau poblogaidd fel Siôn Blewyn Coch a Wil Cwac Cwac am y tro cyntaf. Yn wir, ceir cipolwg ar yr ysbrydoliaeth y tu ôl i Siôn Blewyn Coch, gyda llun hyfryd o Mic y llwynog, y bu J.O Williams yn ei gadw fel anifail anwes."

Nid clawr gwreiddiol cyfrol gyntaf *Llyfr Mawr y Plant* ydi clawr y ddarlith, ond fersiwn gyfoes - cyd-ddigwyddiad ffodus oedd i Wasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd gynnal cystadleuaeth adeiladu cymeriadau llyfr allan o Lego eleni. Yr enillydd oedd Mareed Williams o Rostryfan gyda'i hail-gread rhagorol o glawr *Llyfr Mawr y Plant*, ac yn arwydd pellach efallai o hirhoedledd ac apêl *Llyfr Mawr y Plant* i genhedlaeth newydd o blant Cymru! Ar ôl gweld ymgais fuddugol Mareed, penderfynodd Dr Williams y byddai'n addas iawn fel clawr i'w ddarlith.

Mae'r ddarlith erbyn hyn wedi ei huwchlwytho fel e-lyfr ar safle Borrowbox Llyfrgelloedd Gwynedd, fel y gall pawb ledled Cymru sydd â diddordeb yn y cyfnod a'r hanes hwn, allu ei darllen yn rhad ac am ddim. Er mwyn defnyddio gwasanaeth Borrowbox, rhaid i chi fod yn aelod o'ch Llyfrgell, a gwybod eich rhif PIN (gellir holi amdano trwy eich Gwasanaeth Llyfrgell lleol).

Mae manylion pellach ar gael ar [www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell](http://www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell) ac mae dolen i'r e-lyfr yma: [https://fe.bolindadigital.com/wldcs\\_bol\\_fo/b2i/productDetail.html?productId=LLC\\_911056&filter=all&from-Page=1&b2bSite=4316&browseItemId=425502&ftok=6fe99b9131e-6bee98e4639030e44c4e3](https://fe.bolindadigital.com/wldcs_bol_fo/b2i/productDetail.html?productId=LLC_911056&filter=all&from-Page=1&b2bSite=4316&browseItemId=425502&ftok=6fe99b9131e-6bee98e4639030e44c4e3)



## Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda  
☎ 600853  
Barbara Jones,  
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

Ar ddiwedd mis annaturiol arall, braf yw gweld rhywfaint o lacio ar y cyfyngiadau arnom. Gobeithio na fydd hi'n hir rwan, cyn y dechreuwn ddod yn ôl i ryw fath o drefn. Y gamp wedyn fydd dal i feithrin yr arferion da a ddaeth yn ail-natur inni yn ystod y Cyfnod Clo!

Gwell peidio â dechrau dwrdio am y cynydd diweddar mewn sbwriel yn yr ardal. Dydi o ddim i gyd yn cael ei daflu allan o ffenestri ceir, cofiwch. Mae llawer ohono'n cael ei luchio'n gwbl ddi-híd ar ochr y pafn, neu ym môn y clawdd. Biti garw, a ninnau'n byw mewn lle mor brydferth.

Cyfle i longyfarch sydd gennym gyntaf y mis hwn, beth bynnag.

Ar ddydd ei phenblwydd, y 27ain o Fehefn, dathlodd Rita Thomas a'i gŵr Brian o Fryn Celyn, Gatws, eu Priodas Aur. Mae'n debyg na fu'r dathlu'n union yn ôl y cynlluniau gwreiddiol, ond yn sicr cawsant dreulio diwrnod byth-gofiadwy yng nghwmni'r teulu agos. Bendith arnoch, Rita a Brian, a iechyd da i'r dyfodol!

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Emma Hughes, 18. Cae Gwigin, sydd wedi cael ei derbyn gan Brifysgol Bangor ar gwrs hyfforddiant Nyrsio, i ddechrau yn yr Hydref. Pob bendith a llwyddiant iti, Emma, yn dy yrfa ddewisiedig. Mi fyddi'n Nyrs benigamp.

Mae Dafydd, Emma a Nel wedi cael cymydog newydd, sef Mark Elderkin, un arall o hogia' Pesda. Mae Mark yn nai i Gwilym Davies, ac yn gefnder i Catherine a Rachel, a fu'n byw yn 35. Bro Emrys, rai blynyddoedd yn ôl. Bydd Mark yn teimlo'n gartrefol iawn yn y Sgwâr, gan fod nifer helaeth o'r trigolion â chysylltiau agos iawn â Bethesda, ac yn gyn-ddisgyblion yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Gobeithio y byddi di, a'r ddau gi bach, yn hapus iawn yn dy gartref newydd, Mark.

Roeddem i gyd yn llawn pryder wrth glywed bod Christine John, 10 Cae Gwigin, wedi cael ei chipio'n ddi-symwth i Ysbyty Gwynedd. Cafodd lawdriniaeth frys ond, erbyn hyn, deallwn ei bod yn dod yn ei blaen yn dda. Brysia wella, Christine. Mae dy deulu a'th ffrindiau yn Nhalybont yn edrych ymlaen i'th weld yn cychwyn allan efo Reg am dro byr cyn bo hir.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Keith Jones, 13. Dolhelyg, yn dilyn ei driniaeth y mis diwethaf yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae Keith wedi dioddef cyfnod hir o afiechyd eleni.

Hefyd, i Sister Bethan Griffiths a gafodd godwm yn ei chartref. Braf iawn eich gweld yn codi llaw arnom wrth inni basio'r tŷ, Bethan. Bydd hi'n brafach byth pan gawn

alw heibio am sgwrs go iawn!

Anfonwn ddymuniadau am wellhad llwyr a buan i Jane Griffiths, Tŷ Mawr, sydd ynghanol ei thriniath ar hyn o bryd. Mae Jane â gwên, a gair caredig, i bawb bob amser.

Mae Mrs Enfys Jones, 2. Cae Gwigin, yn cerdded yn ardderchog â chymorth pedair olwyn. Ni choelïai neb ei bod yn gwta pum mis ers iddi dorri ei choes. Mae ei dycnwch, a'i dewrder yn anhygoel.

Enfys, achubwn ar y cyfle i estyn cydymdeimlad dwys atat ar achlysur colli Ellen, dy chwaer-yng-nghyfraith ychydig yn ôl. Cofiwch, hefyd, am Mair Wyn, merch Ellen, a'i theulu. Mae Mair yn hen ffrind inni yma, yn Nhalybont.

Anfonwn gofion cynhesaf at Llew, gŵr Enfys, a Dilys, chwaer Jean, Bryn Awel, ym Mhlas Ogwen; at Lola Williams, 5. Cae Gwigin gynt, yng Nghartref Ceris Newydd ac at Ifan, ym Mhlas yr Wyddfa, Llanberis. Edrychwn ymlaen at gael ymweld â'r Cartref'n iawn unwaith eto, a 'fedr Ifan ddim disgwyl dod adref am dro i brofocio cefnogwyr tîm Lerpwl.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mrs. Nerys Coleman, Bryn, Llandygai, yng Nghartref Plas Hedd ddiwedd Mehefn.

Bu yn gyn-organyddes ac yn aelod gwerthfawr a chefnogol i bopeth yng Nghapel Bethlehem dros y blynyddoedd.

Anfonwn ein cydymdeimlad at ei phriod, Mr. Ernie Coleman, yn ei brofedigaeth lem o golli priod annwyl.

Hoffai Enfys Jones ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau i gyd am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 90 y mis diwethaf. Er gwaethaf cyfyngiadau Cofid, fe gafodd benblwydd i'w gofio yng nghôl ei theulu agosaf.

Gan mai hwn yw rhifyn olaf 'Llais Ogwan' tan fis Medi, anfonwn longyfarchiadau a dymuniadau gorau i bawb fydd yn dathlu penblwydd, neu benblwydd Priodas, arbennig dros y gwyliau, ac i'r holl bobl ifainc sy'n disgwyl canlyniadau arholiad. Cofiwch, hefyd, am unrhyw un sydd mewn helynt; yn unig, neu'n gaeth i'w gartref dros yr Haf.

Cofiwch roi gwybod inni am ddigwyddiadau o bwys, er mwyn eu cynnwys yn y rhifyn nesaf.

Arhoswch yn ddiogel ac yn iach, bobl Talybont, a diolch am eich cefnogaeth i'n Papur Bro!

## Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.  
☎ 01248 602509 / 07789 916166  
carenelaine@hotmail.com

Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. ☎ 01248 601526

### Oes o wasanaeth i Blas Ogwen

Dim yn aml y gallwn longyfarch a diolch i rywun am weithio am 38 o flynyddoedd yn yr un swydd, ond dyna'n union yr hoffai preswyliaid, cyfeillion, trigolion yr adral a staff Cartref Henoed Plas Ogwen ei wneud yn achos Amadna Roberts, Stryd Hir, Gerlan.

Mae pawb ohonom yn ddiolchgar ac yn falch o dy waith caled a'th ymroddiad, Amanda. Pob dymuniad da iti – rwy'ti'n haeddu cael rhoi dy draed i fyny!

### Ymdeoliad

Hoffai Amanda Roberts, Stryd Hir ddiolch yn fawr iawn i holl staff, ffrindiau a theluoedd ym Mhlas Ogwen am gyfarchion, cardiau ac anrhegion a'r parti a gafodd ar achlysur ei ymdeoliad. Hoffai hefyd estyn croeso mawr i Sharon Williams (Sharon Llan), i'w swydd fel Rheolwr y Cartref.

# SAMARIAID

Mae  
**Llinell Gymraeg**

## 0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng  
7.00pm ac 11.00pm

## Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn  
meysydd awyr  
Cludiant Preifat  
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475  
www.owenswales.co.uk

# JR SGAFFALDIAU Cyf. JR

## SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFFORDD STESION, BETHESDA,  
GWYNEDD LL57 3NE  
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:  
**01248 601754**  
07770 568743 (symudol)





## Ysgol Llanllechid

### Croeso'n ôl, blant!

Edrychwn ymlaen hefyd at groesawu Miss Zoe yn ôl yn dilyn ei habsenoldeb mamolaeth.

### Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau i Effy! Mae'n braf dweud bod Effy yn gwella ar ôl ei llawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd.

### Y Cyfnod Clo

Mae'r cyfnod clo yn parhau i lusgo ymlaen, ac er fod Mark Drakeford wedi llacio rhywfaint ar y cyfyngiadau, parhau mae'r angen i ymddwyn yn gyfrifol; cadw pellter a chadw yn lleol, er mwyn cadw'n iach. Do, achosodd cael haul crasboeth ddiwedd Fehefn i'r torfeydd ymgasglu, ac nid yr haul yn unig a ddenodd y torfeydd; erys achos ysgytwol George Floyd am byth, ac yn sgil y digwyddiad creulon, a esgorodd ar brotestio byd eang, llithrodd rheolau Covid. (Braf yw nodi bod y protestiadau lleol wedi cael eu trefnu yn ofalus a'r digwyddiadau wedi bod yn llwyddiant, gan barchu rheolau ymbellhau). A beth am lwyddiant diweddar tîm pêl-droed Lerpwl? Mrs Nerys Tegid wrth ei bodd, a Mrs Rona Williams ddim mor siŵr! Yn naturiol, bu dathlu, ac am ennyd, Covid-19 yn cael ei anghofio!

### Arwyddion o Obaith

Da iawn chi blant os a fu wrthi'n brysur yn gwneud lluniau enfys. Mae torreth ohonynt wedi cael eu gosod ar ffenestri yng nghyntedd Ysbyty Gwynedd i gydnabod gwaith ein gweithwyr allweddol.



Dylan Billington yn astudio'i gasgliad o wyfynnod

Mae'n llonni calonnau pawb sy'n mynd a dod, ac yn sicr yn arwydd o obaith. Da iawn chi!

### Caredigrwydd

Mae cymaint o garedigrwydd ymysg cymuned yr ysgol a diolchwn i bawb am fod yno yn ein cefnogi. Rydym ninnau yma hefyd, wrth gwrs, i gynnig help llaw. Diolch arbennig i Jake am wneud cacen ac am fynd â hi draw at Anti Heather i sgwar Rachub, gan gadw pellter! Roedd Anti Heather wrth ei bodd! Da iawn ti Jake!

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Elain Haf Owen, Gruff Beech a Dylan Billington am ddod i'r brig mewn cystadleuaeth ffitrwydd Gwynedd! Llongyfarchiadau gwresog, a daliwch ati i gadw'n heini! Mae'r tystysgrifau ar y ffordd i chi!

### Windrush a Dinasyddiaeth

Mehefn 22 oedd diwrnod Cenedlaethol 'Windrush.' Roedd y disgyblion wedi rhyfeddu at y ffaith fod hanner miliwn o bobl wedi teithio i Brydain o'r Caribî rhwng 1948-1971 ar longau, gydag un o'r longau hynny yn dwyn yr enw Empire Windrush. Daeth hyn ag atgofion plerusr i ni am yr amser pan aeth rhai o'r disgyblion hynaf o Ysgol Llanllechid i ymweld â Chaerdydd i wethfawrogi a dysgu am gyfraniad pobl y Caribî mewn cymunedau. Yn ystod ein taith, cafwyd cyfle i ymweld â chymuned aml ddiwylliannol Trebiwt, a gafodd ei sefydlu cyn cyfnod y Windrush, a chyfle i gyfarfod (â'r diweddar) Betty Campbell, sef arweinydd a phrifathrawes groenddu gyntaf Cymru. Pleser oedd gwranddo ar ei storïau difyr. Dywedodd bod pobl o'i chwmpas yn dweud wrthi na fyddai byth yn llwyddo, oherwydd lliw ei chroen, ond roedd gan Betty Campbell dân yn ei bôl a'r cysyniad o degwch yn ei chalon. Pan feddylw'n am yr ymgyrchoedd diweddar, cofiwn am Betty Campbell fel dynes cyn ei hamser, a ddysgodd ei chyd-ddyn i barchu gwahaniaeth mewn pobl, yn hytrach na'i feirniadu. Gwersi pwysig i'n plantos ni heddiw!



Mae rhai o blant blwyddyn 3, sef dosbarth Mrs Marian Jones, wedi bod yn brysur yn efelychu gwaith yr artist dawnus Cefyn Burgess, drwy ddarlunio rhai o gapeli'r ardal. Dyma lfan, â'i lun o Gapel Carmel.



Capel Carmel gan Seth

### Diolch

Diolch yn fawr i'r holl staff am eu gwaith caled a'u holl ymdrechion. Dymuniadau gorau i bawb dros

yr haf, ac edrychwch ar ôl eich hunain a chadwch yn saff, ac fel sy'n cael ei ddweud yn aml y dyddiau hyn: Daw eto haul ar fryn!



Dylan Billington yn astudio'i gasgliad o wyfynnod

## Glainfryn a Chaerhun

### Y Cyfnod Clo

Pwy fuasai wedi meddwl y byddwn yn dal i fod yn y cyfnod clo ers y gwaharddiadau ym mis Mawrth! Ydi, mae o wedi newid bywyd pawb, yn enwedig yr hen blant, ac yn rhywbeth y byddant yn eu gofio am byth. Yma yn Waen Wen, sydd fel arfer yn ardal ddistaw, daeth newid ar fyd dri mis yn ôl! Gwelwyd dwsinau o bobl yn cerdded, beicio a loncian ar hyd ein lonydd a'n llwybrau lleol, a rheini yn bobl ddieithr i'r fro. "O ble maen nhw i gyd yn dod?" oedd ar wefusau pawb!

Mae gerddi, waliau a chloddiau yr ardal fel Bodnant, a thiroedd sydd wedi bod yn llwm yn llawn llysiâu a ffrwythau erbyn hyn. Does dim amheuaeth fod byd natur wedi bod ar ei orau eleni, gan nad yw ochr y

ffyrdd wedi cael eu torri. Mae toreth o flodau gwyllt hyfryd, lliwgar yn arddurno y ffyrdd a llawer iawn o adar yn canu o ben bore tan hwyr y nos – gwych yn wir!

Rhaid canmol tîm golygu a chyfranwyr Llais Ogwan dros y tri mis diwethaf am lwyddo i ddod a phapur bro gwerth chweil i'n cartrefi dros y wê. Mae erthyglau diddorol, penigamp wedi ymddangos, o deithiau cerdded i arddio a choginio, ac mae'n wych fod yr ysgolion wedi medru cyfranu a'r plantos ddim hyd yn oed yn yr ysgol! Diolch yn fawr i chwi gyd!

### Rhaglen Ffermio

Ddiwedd Mehefin daeth Daloni Metcalfe o raglen Ffermio S4C i ymweld ag Anna Griffith (Pritchard), Arlunydd Tecstilïau, sydd yn byw

ym Mryn Gwredog Isaf, Waen Wen. Mae Anna efo stiwdio yn ei chartref lle mae'n cynllunio a dylunio ei gwaith celf. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae hi wedi bod yn gwehyddu sgarffiau hyfryd o sidan a gwlan ac, yn ddiweddar, blancedi a chlustogau o wllân. Mae'r dyluniadau wedi eu selio ar nôd clust defaid yr ardal gan fod Anna yn hannu o un o deuluoedd ffermio defaid hynaf yn Nyffryn Ogwen. Efallai fod rhai ohonoch wedi gweld ei gwaith yn Eisteddfod Llanrwst y llynedd. Mae gan Anna a'i gŵr Dewi ddiadell o ddefaid hefyd, sydd ar hyn o bryd yn pori ar dir yn Neiniolen dros yr haf. Bu criw Ffermio yno yn fflmio hefyd ynghyd â'r plant, Cadi a Guto.

Os hoffech weld mwy o waith a hanes Anna, ewch ar ei safle wê:

[www.annapritchard.co.uk](http://www.annapritchard.co.uk)  
Llongyfarchiadau iddynt ar eu llywyddiant.

### Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau am wellhad buan i ddwy o'r ardal fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Syrthiodd Mrs Eva Thomas, Sŵn y Coed, yn yr ardd a thorri ei choes a bu Mrs Marian Bryfdir Jones, Bro Eryri yn Ysbyty Abergele yn cael triniaeth ar ei llygaid. Dymuniadau gorau i Allan Jones, Bwthyn y Waen sydd wedi cael ambell gyfnod gwael yn ystod y cyfnod cythryblus hwn. Yr un yw'r dymuniadau i bawb arall yn yr ardal sydd ddim cystal ag arfer. Pob dymuniad gorau i bawb dros yr haf, gan obeithio y byddwn yn medru agor y Ganolfan unwaith eto ym mis Medi!

## Rhaid Gwarchod Enwau Lleoedd

Sut mae diogelu enwau lleoedd â'u cyfoeth rhyfeddol – rhan mor allweddol o'n hetifeddiaeth ddiwylliannol genedlaethol? Bu sawl ymdrech yn ystod y deugain mlynedd diwethaf, ac yma yn ein hardal ni fe lwyddwyd i gael gwared â '*Nameless Cwm*' (uwchlaw Cwm Idwal) a '*Nameless Peak*' (Nant y Benglog) o fapiau a gorseddu'r enwau Cwm Cneifion a'r Foelgoch. Yn ddiweddar, cafwyd ymdrech anrhydeddus gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru gyda chymorth Dr Dai Lloyd AC i warchod ein henwau lleoedd drwy ddeddfwriaeth, ond nid chafodd y cais ei gefnogi gan ddigon o'r Aelodau Cynulliad.

Mae disodli enwau lleoedd Cymraeg yn mynd rhagddo. Dyma rai enghreifftiau o'r tueddiad gwarthus hwn yn ardal y Carneddau a'r Glyderau. Aeth Coed Cerrig y Frân uwchlaw Blaen y Nant ym mhen uchaf Nant Ffrancon yn '*Mushroom Garden*', ac aeth Craig Cwrwgl uwchlaw'r Marchlyn Mawr yn '*Pillar of Elidyr*'. Disodlwyd Llwybr Gwregys ar ochr Tryfan gan '*Heather Terrace Path*', a Rhaeadr y Benglog islaw Llyn Ogwen gan '*Ogwen Falls*'. Bellach '*Australia Lake*' ydy Llyn Bochlyd yn rhai o gyhoeddiadau Saesneg y dringwyr a'r cerddwyr, a chyfeirir at Glogwyn y Tarw yng ngheg Cwm Idwal fel '*Gribin Facet*'. Yr enw ar y draethell raean ar lan Llyn Idwal ydy'r Ro, ond erbyn hyn mae'r enw '*Idwal Beach*' wedi ymddangos. Mae Creigiau Cwm Graeanog rhwng Carnedd y Filiast a Mynydd Perfedd uwchlaw Nant Ffrancon wedi cael yr enw

'*Atlantic Slabs*', a gelwir crognant Clogwyn y Geifr yng Nghwm Idwal yn '*Devil's Appendix*'. Mae'r enwau Saesneg yn mynd ar wefannau ac i lyfrynau a llyfrau ac yn cael eu defnyddio mewn papurau newydd a chylchgronau ac ar y cyfryngau darlledu.

Dewch inni fod yn gwbl glir ar y mater hwn. Mae llurgunio enwau lleoedd Cymraeg neu eu disodli gan enwau Saesneg yn treisio'n hunaniaeth ni fel cenedl. Mae angen dybryd am ddeddf i warchod enwau lleoedd hanesyddol. Cafwyd ymdrech anrhydeddus yn lled ddiweddar i gael deddf o'r fath ond bu'n aflwyddiannus, ac mae gofyn inni ddwysáu ein hymdrechion i geisio goleuo gwleidyddion ynghylch pwysigrwydd gwarchod enwau lleoedd.

Dyma awgrymiadau ar sut y gallem warchod ein henwau lleoedd:

1. Galw am ddeddfwriaeth briodol gan Senedd Cymru fel bod enwau lleoedd hanesyddol yn cael eu gwarchod yn statudol.
2. Galw ar Swyddfa'r Arolwg Ordnans a chynhyrchwyr mapiau eraill i a. nodi enw Cymraeg gwreiddiol yn unig lle bo enw Saesneg ar hyn o bryd; b. nodi'r enw Cymraeg yn unig pan fo enw Cymraeg ac enw Saesneg; c. cynnwys enwau lleoedd Cymraeg sydd heb fod ar y mapiau ar hyn o bryd.
3. Ymaelodi â Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru i hyrwyddo'i hamcanion sy'n cynnwys gwarchod yr enwau.

4. Tynnu sylw Cyngor Mynydd Prydain a chyrrff eraill at yr hyn sy'n digwydd, a galw am warchod enwau lleoedd y mynydd-dir gan sicrhau bod enwau Cymraeg ar ddringfeydd.
5. Sicrhau bod cronfeydd data'r cyngorau sir yn gyflawn ac yn gywir o ran enwau lleoedd gyda'r ffurfiau Cymraeg yn unig yn cael eu nodi a'u defnyddio, a'i gwneud hi'n ofynnol i gyrff eraill ddefnyddio'r ffurfiau hynny, gan gynnwys cyhoeddiadau a'r cyfryngau darlledu.
6. Pan fo datblygiadau newydd megis codi tai, sicrhau bod cyngorau'n mynd ati i holi am enwau'r lleoedd hynny fel bod enwau Cymraeg addas yn cael eu defnyddio.
7. Cymell cyngorau sir a chymuned ynghyd â chymdeithasau lleol i hyrwyddo prosiectau cymunedol i gofnodi enwau lleoedd.
8. Cymell sefydlu gwefannau lleol ar enwau lleoedd ar batrwm gwefan Enwau Dyffryn Ogwen gan Dafydd Fôn Williams.
9. Cynnwys enwau lleoedd yn rhan o gwricwlwm yr ysgolion cynradd ac uwchradd drwy gyd-gysylltu iaith, hanes, daearyddiaeth ac astudiaethau'r amgylchedd.
10. Galw ar ein holl gyngorau sir i osod arwyddion yn nodi enwau llwybrau, pontydd ac afonydd lle bo'n briodol.

### Ieuan Wyn

(atgynhyrchir gyda chaniatâd Ogwen360)



## Bethesda

Mary Jones,  
maryeds@hotmail.co.uk  
☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd  
Ffrydlas, Bethesda  
☎ 601902

### Cartref newydd

Croeso i Sioned Jones a David Hayes i'w cartref newydd ym Mryn Caseg. Mae Sioned o Fryn Caseg yn wreiddiol a David o Sling.

### Croeso

Croeso cynnes i'r teulu Hanson, sef Tony, Llinos, Tomos a Matilda, sydd wedi ymgartrefu yn Glandwr, Rhos Douglas ers rhai wythnosau bellach. Pob lwc a hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

### Yr Eglwys Unedig

Gyda'r glaw yn achosi tyfiant aruthrol yng ngardd y Capel, mae'r dynion, sef Emyr, OJ a Walter yn dal yn brysur yn cadw popeth yn dwt, gyda Heulwen yn cynorthwyo a chadw trefn arnynt hwythau – gwerthfawrogn eu hymdrechion yn fawr iawn.

Yn dilyn cyfarwyddiadau manwl a ddaeth i law o bencadlys yr Eglwys Bresbyteriaidd yng Nghymru parthed y posibilrwydd o agor y Capel ar gyfer gweddi breifat, penderfyniad unfrydol y Blaenoriaid oedd na ellid ystyried gwneud hynny ar hyn o bryd. Cyn y gallwn agor y drysau i'r cyhoedd, bydd yn rhaid cael glanhawyr proffesiynol i mewn i sicrhau nad oes arlliw o haint yn llechu yno, ac yna mynd drwy'r broses o ddi-

heintio ar ôl pob ymweliad. Teimlwn bod cyfrifoldeb mawr arnom fel Blaenoriaid i sicrhau nad ydym yn rhoi unrhyw aelod, nac ychwaith aelod o'r cyhoedd, mewn perygl o gwbl, ac felly ni fyddwn yn ystyried agor y drysau hyd nes y byddwn wedi cael sicrwydd diamheuol bod COVID 19 wedi cilio'n llwyr.

Yn y cyfamser, mae gwaith cynnal a chadw yn dal i fynd yn ei flaen, er mwyn ceisio sicrhau nad oes dirywiad yng nghyflwr yr adeilad unigryw hwn.

Anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd, ac edrychwn ymlaen at gael croesawu'r gymuned gyfan yn ôl i'n plith ar gyfer gwahanol weithgareddau cyn bo hir iawn!

### Eglwys Crist, Glanogwen

Eto'r mis hwn, anfonwn ein cofion cynhesaf at ein haelodau i gyd – yn enwedig y rhai fu'n gaeth i'w cartrefi cyhyd, gan obeithio na fydd yn hir cyn i ni weld ein gilydd unwaith eto. Diolch bod y tywydd yn dal yn caniatáu i ni allu gael awyr iach, boed wrth fynd am dro neu drwy fwynhau bod yn yr ardd.

Diolch i'r rhai anfonodd eu amlenni rhodd i'r Trysorydd, a chofio ein bod yn dal yn gorfod talu'r Cyfran Esgobaethol ac wrth gwrs y biliau arferol. Bydd amlenni newydd yn cael eu dosbarthu gyda hyn, ac os dymunwch i ni gasglu'r lleill, rhowch ganiad ar y rhifau isod. Diolch yn fawr.

Cofiwch os oes rhywun yn unig neu am gael sgwrs, mae croeso i chwi roi caniad i Glenys ar 600371 neu Barbara ar 600530. Gobeithiwn gael cyfarfod cyn bo hir.

## Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref,  
Llandygái, Bangor LL57 4HU  
☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref  
Llandygái, Bangor LL57 4HU  
☎ 01248 351633

### Damwain

Rydym i gyd yn dymuno gwellhad buan i Mrs Joan Beer, a gafodd godwm sylweddol tra'n aros gyda'i merch yn Stafford dros gyfnod y clo.

### Eglwys Sant Tegai, Llandygai

#### Ymddiheuriad

Ni ymddangosodd newyddion St Tegai yn rhifyn Mehefin 2020 o'r Llais oherwydd problem dechnegol. Gweler isod yr eitemau a gollwyd!

### Dymuniadau gorau

Mae'n ddrwg iawn gennym glywed fod Liz Jones wedi cael damwain ac yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad buan iawn iddi ac i'w gŵr sy'n dioddef o anhwylder gartref ers rhai misoedd.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Susan a Margaret, nithoedd y ddiweddar Mrs Mary Robinson, Fern Cottage ar eu colled o fodryb annwyl. Roedd y dair ohonynt yn gefnogwyr brwd (ac yn enillwyr selog!) o nosweithiau bingo yr eglwys ac roedd yn bleser gweld y wen siriol ar wyneb Mary wrth iddi ennill!

### Penblwydd Arbennig

Dathlodd Edmond Douglas Pennant benblwydd arbennig ar ddechrau'r mis. Gobeithio eich bod wedi cael diwrnod pleserus er y cyfyngiadau, Edmond. Cawn gyfle eto yn y dyfodol i'ch llongyfarch yn bersonol!

### Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai

Yn ystod cyfnod anodd y coronafirws, mae aelodau'r gynulleidfa yn cadw mewn cysylltiad clos drwy ebost neu dros y ffon ac yn ymuno pob dydd Sul am 10.15 mewn cydweiddi ddistaw yn y tŷ gydag eglwysi eraill Bro Ogwen. Croeso i chi oleuo kannwyll, ddarllen darn o'r Beibl neu fyfyrddod a dweud gweddi gyda ni.

### Adeilad St Tegai ar gau

Hoffem atgoffa ein darllenwyr bydd adeilad yr eglwys yn parhau ar gau yn y dyfodol agos ac hyd y gellir rhagweld; nid yn unig oherwydd Cofid-19 ond wrth gwrs oherwydd y gwaith atgyweirio. Ni chynhelir gwasanaethau yn yr eglwys nes bydd y gwaith ar ben. Cadwch olwg ar ein colofn am y newyddion diweddaraf ynghylch yr ail-agor.

Ymgymwrwr adeiladu a  
gwaith saer

**Ronald Jones**

Bron Arfon, Llanllechid  
Bethesda

☎ 01248 298763

**BARBWR OGWEN**



Torri Gwalltiau  
Dynion a Phlant  
gan Alison

**Londis Bethesda**

☎ 01248 605566  
Archfarchnad hwylus  
a Swyddfa Bost  
Gwasanaeth personol  
gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy  
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr  
7 diwrnod yr wythnos

**Cerbydau Penrhyn**

**CABIAU A BYSIAU MINI**

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd  
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth  
Ambiwlans Gogledd Cymru

## Enwau Dyffryn Ogwen

(Diolch i Dafydd Fôn Williams am ei ganiatâd i ddefnyddio cynnwys allan o'r wefan 'Enwau Dyffryn Ogwen'. Mae o'n gweithio ar y wefan ac yn cynnwys mwy o'i waith ymchwil i enwau'r ardal wrth fynd ymlaen).

Yn Llais Ogwan Mis Mehefin roedd enwau'n dechrau gyda'r llythrennau A a B. Y mis hwn cyhoeddwn restr o enwau yn cychwyn gyda'r llythyren C

<b>Cae Braich y Cafn</b>	cae ger braich o fynydd sy'n ymwthio i hafn ddofn o dir / Hafn ddofn lle mae afon yn rhedeg drwyddi
<b>Cae Coch</b>	cae wedi ei aredig
<b>Cae Cyd</b>	cae yn cael ei ddal gan fwy nag un person
<b>Cae Gwigyn</b>	cae ym meddiant dyn o'r enw Gwigyn
<b>Cae Gwilym Ddu</b>	cae ym meddiant Gwilym Ddu
<b>Cae'r Ffos</b>	cae ble'r oedd ffos ynddo
<b>Cae Gronw</b>	cae ym meddiant Gronw
<b>Cae Gwyn</b>	cae gyda thyfiant gwyn yn ei nodweddu
<b>Cae Herfn</b>	cae erfn? Maip yn tyfu ynddo.
<b>Cae Hyfaidd</b>	cae ym meddiant dyn o'r enw Hyfaidd
<b>Cae Ifan Gymro</b>	cae ym meddiant dyn o'r enw Ifan Gymro
<b>Cae Mawr</b>	cae mwy na'r cyffredin, neu mwy na gweddill caeau'r
<b>Cae'r Saeson Bach</b>	(Gwern Saeson Bach) O'i gymharu â fferm fynydd gyfagos Gwern Saeson Fawr
<b>Cae Rhys William</b>	Cae oedd ym meddiant Rhys William
<b>Cae'r Wern</b>	Cae oedd ynghlwm wrth y Wern Fawr (ger Cororion)
<b>Capel Cwta</b>	Enw 'diweddar' - Dim hanes o gapel yno. Cwta = tir crintachlyd, gwael?
<b>Capel Ogwen</b>	Capel ar lannau Ogwen
<b>Carneddi</b>	Ardal ble'r oedd nifer o garneddau
<b>Caseg</b>	Afon wyllt, gyflym, gydag ewyn fel mwng caseg yn carlamu
<b>Cefnfaes</b>	maes ar gefnen o dir, neu ran bellaf y maes
<b>Cefn y coed</b>	tu ôl i'r coed
<b>Ceunant</b>	glyn cul
<b>Cilfodan</b>	cilfach? cawodan? Hafoden?
<b>Cilgeraint</b>	cilfach y teulu/ cilfach Geraint (llai tebygol)
<b>Ciltrefnus</b>	ciltreflys; cilfach ble'r oedd fferm y llys
<b>Ciltwllan</b>	cilfach yr egwys dywyll (mewn coed)
<b>Clwt y Felin</b>	darn bychan o dir yn perthyn i'r felin
<b>Coed Uchaf</b>	Y coed uchaf (i fyny'r mynydd), neu y coed pellaf oddi wrth y ganolfan weinyddol
<b>Coed Isaf</b>	Isaf (i lawr y mynydd) neu agosaf i'r ganolfan weinyddol
<b>Cochwillan</b>	ystyr ddim yn wybyddus
<b>Coed Hywel</b>	coed oedd yn eiddo i Hywel
<b>Coetmor</b>	coed mawr
<b>Coed y Parc</b>	coed y darn o dir oedd wedi ei gau i mewn
<b>Corbri</b>	o'r enw personol Gwyddelig 'Cairbre', neu bryn bychan (cor+bre)
<b>Cwlyn</b>	lle bychan
<b>Cymysgmai</b>	y waun sy'n cael ei haredig ym Mai

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

### CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin  
Llandegfan  
Ynys Môn  
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

## MODURDY FFRYDLAS



Profion  
M.O.T.

Perchennog  
A. LI. Williams

**Stryd Fawr, Bethesda**  
♦ PROFION M.O.T. ♦

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO**  
♦TEIARS A BATRIS♦  
**GWASANAETH TORRI I LAWR**  
**NEU DDAMWAIN**

☎ 600723  
Ffacs: 605068



**Hywel Williams**  
Aelod Seneddol  
Etholaeth Arfon

### CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

**Ogwen**  
Adferiad Corfforol  
Physical Rehabilitation

**Proffesiynol, diogel a chyfrinachol**

**LLEDDFU POEN** Cefn, cyhyrau, esgryn,  
cymalau, a thensiwn cur pen

**Eli Lichtenstein**

☎ 07743373895 ✉ Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com



# Taith o Amgylch y Fro

## gydag Arwyn Oliver

Rydyn ni'n cychwyn y mis hwn o faes parcio Plas Ffrancon. Ewch i ben draw'r maes parcio a drwy'r bwlch yn y ffens gan gymeryd llwybr "Cae Boncs" i gyfeiriad Carneddi.

Cyrraedd llwybr Chwarel Pant Dreiniog a throi i'r chwith i gyfeiriad Lôn Hen Barc.

Troi i'r chwith ger Meithrinfa Ogwen ac ymlaen i gyfeiriad Rachub. Ymhen rhyw 100 metr, troi i'r dde i fyny'r llwybr heibio fferm Cae Cymro.

Ewch drwy'r giât ger y fferm a dringo'n raddol i'ch chwith. Rydych yn sicr o ganfod y llwybr er nad yw'n glir ar y cychwyn.

Anelwch am y giât gyda pholyn gwyn arni. Wedi gadael y giât, cerdded ar draws yr hen domen chwarel i fyny am y giât uchaf sy'n rhoi mynedfa i'r mynydd.

O'r fan hyn (lle mae cronfa ddŵr wedi ei chladdu ar y dde i chwi), cerddwch ar y gwastad am waelod yr inclein sy'n codi uwchben Rachub.

Mae'r rhan yma'n eithaf serth am ychydig. Dringwch i fyny'r inclein a thua hanner ffordd

byddwch yn cyrraedd llwybr sy'n amgylchynu Moel Faban. Mae hwn yn lle da i gael eich gwynt atoch a mwyhau'r olygfa fendigedig.

Troi i'r chwith a cherdded i gyfeiriad Chwarel Bryn.


Dilyn y llwybr sy'n mynd â chi heibio gwaelod Bwlch Molchi a chanlyn y wal fynydd nes bron cyrraedd y chwarel.

Ewch drwy'r giât a cherdded drwy'r chwarel nes cyrraedd ffordd. Troi i'r chwith i lawr y ffordd a mynd heibio mynediad ffordd ar y dde sy'n arwain i Fferm Bryn.

Ewch ymlaen i lawr y ffordd nes cyrraedd arwyddbost llwybr cyhoeddus ar y chwith. Aiff y llwybr â chi i lawr i Llanllechid. Cymerwch y llwybr hwn.

Cyrraedd Llanllechid a throi i'r chwith ar ffordd Llanllechid i gyfeiriad Rachub. Troi i'r dde yn sgwâr Rachub ac ymhen 100 metr, troi i'r chwith ar hyd llwybr Lôn Bach Odro.

Fe aiff y llwybr â chi heibio i Ysgol Llanllechid yn ôl at Blas Ffrancon.



**Pellter:** ychydig dros 3 Milltir

**Amser:** tua 2 awr

**Offer:** esgidiau addas (rhannau mwdlyd)

**Math o daith:** ambell i lecyn serth

## SIOP OGWEN

33 Stryd Fawr, Bethesda

Peidiwch anghofio am Siop Ogwen.  
Galwch draw!

Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau, Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra, CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon, Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro, Llais Ogwan a llawer mwy!

Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau (e.e. Barn, Mellten, Bore Da, Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt ayyb) a CDs hefyd.

Ar agor ddydd Mercher (10-2),  
Dydd Iau /Gwener (10-5)  
a dydd Sadwrn (10-3).

siop@ogwen.org

**01248 208 485**



## Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel  
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr  
Bangor  
Gwynedd  
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol  
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106 Porthaethwy (01248) 719517 Benllech (01248) 852782

Caernarfon  
(01248) 673616

Pwllheli  
(01758) 703000

## DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr  
Ysglodion pren i'r ardd  
Ffensio a thorri coed  
Asiant system gwresogi trwy  
logsi coed

**01248 605207**

## Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel  
1 Ffordd Garneddwen  
Bethesda  
600763 neu 07708 008051

**GWASANAETH DYDD A NOS**

# Wil Rich

## mewn cyfweiliad ar dâp gyda Derfel Roberts yn 1974

Ym Mis Rhagfyr 1974 cyhoeddwyd y cyntaf o ddau gyfweiliad a recordiwyd ar dâp gydag un o gymeriadau mwyaf gwreiddiol y fro, sef Wil Rich neu William Richard Davies i roi iddo ei enw iawn. Yn anffodus mae'r tâp hwnnw wedi mynd ar goll ers blynnyddoedd ond mae ei gynnwys ar gof a chadw yn ein papur bro. Yn y gyfrol *Byd Go Iawn Un Nos Ola Leuad* gan Dr J. Elwyn Hughes, dywedir bod y cymeriad Now, Gwas Gorlan yn nofel Caradog Prichard wedi ei seilio i raddau helaeth ar Wil Rich neu 'Wil Ritsh' fel mae'n cael ei alw gan JEH. Mae JEH yn disgrifio Wil fel hyn:-

*"Roedd William Richard Davies yn siŵr o fod yn un o'r cymeriadau anwylaf, diniweitiaf a doniolaf a droediodd ddaear Dyffryn Ogwen erioed. Ond prin y byddai unrhyw un yn gwybod amdano wrth ei enw llawn - Wil Ritsh ydoedd i bawb drwy'r ardal."*

Yn y cyflwyniad i'r cyfweiliad yn Llais Ogwan dywedir, "Y mae dywediadau sydyn, bachog Wil Rich, fel y'i gelwir wedi dod bellach yn rhan o gynhyrsgaeth ddiwylliannol ardal Bethesda."

### FFRAETH

Nid clyfrwch gwneud ydy dawn Wil, ond meddwl minig, chwim sy'n medru cynhyrchu ateb ffraeth a hwyliog i gwrdd â phob sefyllfa. Mae llawer un wedi trio'i law ar wneud sbort am ben Wil ond wedi gorfod cilio'n fuan a'i gynffon rhwng ei goesau oherwydd bod atebion Wil yn fwy gafaelgar na gosodiadau ei wrthwynebwr.

### CAREDIG

Na feddylid neb mai trwy falais yr enilla'r cymeriad hwn ei le fel brenin y dywediad ffraeth chwaith. O na, ni chlywais i neb erioed yn dweud gair cas amdano. Cymeriad hoffus ydyw, heb angen dweud dim byd creulon am neb, gan fod ei arabedd, neu ei 'wit' fel

dywed y Sais, yn ddigon o arfau ganddo i gario'r dydd bob tro.

Dyma addasiad o'r sgwrs a gafwyd gyda Wil.

**LL.O:** I ddechrau cychwyn Wil, lle cawsoch chi eich geni a'ch magu?

**Wil:** "Wel, rydw i'n enedigol o'r Gerlan 'ma 'te. Wn i ddim un o ble oedd fy nhad, ond yma rydw i'n cofio fy hun. Yn Stryd y Ffynnon (Well St.) y ganwyd fi. Roedd gen i bump o chwirydd ac un brawd ac rydw i'n byw efo un chwaer o'r enw Maggie yn Carneddi ar hyn o bryd."

**LL.O:** I ba ysgol oeddech chi'n mynd yn blentyn?

**Wil:** "Ysgol y Gerlan, Ysgol Glanogwen a'r County School."

**LL.O:** O, fuoch chi yn y County School hefyd?

**Wil:** "Do, yn cario glo 'te!"

**LL.O:** Faint oedd eich oed yn gadael yr ysgol?

**Wil:** "Doedd na fawr o waith gadael wchi achos dôn i ddim yno rhyw lawar."

**LL.O:** Lle fuoch chi'n gweithio?

**Wil:** "Mi fûm yn y chwarel am gyfnod ac mi es i yn ôl yno wedyn i ofyn am waith, a dyma fi at y stiward, "Os gwelwch yn dda Mr Rees, sut mae hi'n edrych am job?"


Dyma'r stiward yn gofyn i mi, "Hogyn pwy ydych chi?"

"Hogyn Richard Davies, Gerlan," medda fi. "O ia," medda fo, "Dwi'n ei nabod o'n iawn. Wyddoch chi, be' gyfaill, ewch chi byth i'w sgidia fo tra byddwch chi byw."

"Maen nhw am fy nhraed i rŵan." medda fi.

**LL.O:** Ar ôl bod yn y chwarel, beth ddigwyddodd wedyn?

**Wil:** Mi es i o'r chwarel i Gerlan Ffarm ac rydw i'n cofio rhywun yn dweud wrtha i y bysw'n i'n edrych yn dda petawn i yn cael tynnu fy



llun ar gefn mul.

"Dach chi'n meddwl?" medda fi.

"Ydw," medda'r brawd

"Wel," medda finna', "Dowch allan i'r cowt 'ma efo fi ac mi â i ar eich cefn chi ŵan."

**LL.O:** Sgynnoch chi stori arall am fywyd ar y ffarm Wil?

**Wil:** Oes tad, dwi'n cofio Ifan

Ifans, Gerlan Ffarm yn gofyn i mi rydwro,

"Oes gen ti isio brechdan Wil."

"Oes os gwelwch chi'n dda," medda fi

"Rownd y dorth?" medda Ifan Ifans.

"Ia, ac yn ôl," medda fi.

**I barhau**

## Contractwyr Trydanol

### Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig  
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257  
Ffacs: 01248 601982

E-bost: [info@jonesandwhitehead.co.uk](mailto:info@jonesandwhitehead.co.uk)





## Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),  
48 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192  
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw,  
Tregarth ☎ 601544

### Dathlu penblwydd arbennig

Dathlodd Carys Williams, Y Garreg Wen, Tal y Cae, ei phenblwydd yn saithdeg oed yn ystod Mis Mehefin. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i'r dyfodol Carys, gan bawb o dy deulu a dy ffrindiau.

### Profedigaeth

Cydymdeimlwn gyda theulu Islwyn Jones, Valwyn, Dob, fu farw yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion at ei briod Val, y bechgyn Gethin, Lesley gan gofio am y diweddar Geraint a'r holl deulu yn eu profedigaeth. Roedd Islwyn yn berchen ar y cwmni trydannol Dob Electricals ac yn weithgar iawn yn yr ardal.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Anwen Griffiths, Cysgod y Parc, Sling, a'r teulu ar enedigaeth Rhianwen Mai yn ystod mis Mehefin, sef merch fach i Hywyn a Rachel Griffiths, Dwygyfylchi. Cofion at Nain a'r teulu bach.

### Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad gyda Ann ac Ian Cook, Carreg y Bedol, Sling. Hefyd Sion, Meical a'r holl deulu yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn, sef Helen Maud Williams, Mynydd Llandygái ar Fehefn 15. Roedd Anti Helen yn Anti i holl blant Ysgol Bodfeurig ers blyneddoddedd, wedi gweithio yng nghegin yr ysgol ac yn gymorth yn y dosbarthiadau. Bydd colled fawr ar ei hol. Yn meddwl amnoch fel teulu.

## Ysgol Tregarth

### Babi Newydd

Braf yw cael llongyfarch Mrs Lliwen Jones, Pennaeth ysgol Tregarth a Bodfeurig, a'i gŵr Mr Glynne Jones ar enedigaeth eu mab bach, Deian Glyn a aned ar 26ain o Fai. Edrychwn ymlaen at gyfarfod Deian Glyn yn fuan. Cadwch yn saff!

### Dosbarth Idwal

Tydi'r cyfnod clo yma ddim yn amharu dim ar frwdfrydedd a pharodrwydd y plant Meithrin a Derbyn i weithio'n galed a mwynhau! Rydym yn parhau i dderbyn pentwr o waith gwych. Yn sicr, mae gennym blant gweithgar a brwdfrydig iawn a diolch i'r rhieni sydd yn brysur yn cefnogi'r plant adref. Mae llawer o blant yn brysur yn cwblhau pob tasg heb sôn am feddwl am ambell dasg ychwanegol! Maent yn parhau i weithio'n galed ar-lein ac ar bapur ac allan yn yr awyr agored. Rydym yn parhau i ddilyn thema ac ar hyn o bryd yn dysgu am greaduriaid bach sydd i'w gweld yn ein gerddi. Nid oes rhaid mynd ymhell o'r tŷ i ddarganfod a dysgu. Rydym wedi mwynhau'r stori 'Y lindsyn llwglyd iawn' ac wedi dysgu llawer am gylch bywyd pili pala. Wyddoch chi fod modd defnyddio lego a duplo i greu lindsyn? A beth am greu lindsyn allan o frechdanau a ffrwythau? Mae Dosbarth Idwal yn gallu gwneud hyn a mwy! Roedd astudio'r pili pala yn gyfle gwych i ddysgu mwy am gymesuredd ac mae'r plant wedi dangos eu bod yn gallu greu llun neu ddarn o waith sy'n gymesur. Mae detholiad o dasgau celf yn cael eu gosod yn wythnosol ac rydym oll wedi dotio at y gwaith sydd yn cael ei gynhyrchu. Mae'n braf cael amser i fod yn greadigol a dysgu sgiliau newydd.

Diolch o waelod calon unwaith eto i'r rhieni a'r gwarchodwyr sydd wedi helpu'r plant i gwblhau'r tasgau a'r gweithgareddau o adref.

Mae cael gweld y gwaith da mae'r plant yn wneud yn hyfryd ac yn rhoi gwên ar ein gwynebau. Cadwch yn saff i gyd a chofiwch, fe ddaw eto haul ar fryn.

### Dosbarth Ffrydlas

Diolch eto i'r plant sydd wedi bod yn brysur yn gweithio adref ar wahanol brosiectau a thasgau.

Cawsant gyfle i ddysgu am rai o enwogion ac arwyr ar draws y byd. Un ohonynt oedd Stephen Hawking. Hefyd gan fod cymaint yn y newyddion yn ddiweddar am hawliau cyfartal, fe ddarllenodd hi am Martin Luther King a Rosa Parks, gan wneud llun ohoni hi ac o'r bws hwnnw yn Alabama a ddechreuodd y protestiadau yno.

Cafodd rhai ymestyn eu dychymyg drwy greu planed newydd sbon a mynd ati i ddisgrifio ei nodweddion. Creodd Joel gyfres o blanedau yn troi o gwmpas seren arbennig a'l enwi yn 'Pecwyn'. Planed ble roedd cathod yn byw a greaodd Caitlin. Braf gweld plant yn defnyddio eu dychymyg!

Rhaid nodi mae'r tasgau mwyaf poblogiadd yw rhai mathemategol! Dalwch ati wir.

### Dosbarth Ogwen

Dros y mis diwethaf, mae dosbarth Ogwen wedi parhau eu hymdrechion drwy wneud y mwyaf o'r plattform ar-lein a gweithio o adref. Rydym wedi bod yn edrych ar bynciau megis mynyddoedd, cyfandiroedd a thirnodau enwog o gwmpas y byd. Bu'r disgyblion yn parhau i ddatblygu eu sgiliau digidol gan ymchwilio a defnyddio amryw o raglenni gwahanol. Mae'r disgyblion wedi mwynhau darllen am Antartica, gwaith ymchwil i dirnodau enwog, ymchwilio i fynyddoedd lleol gan greu taflenni gwybodaeth a chreu model o'r Wyddfa.



Manylion Cyswllt  
Cynghorwyr Sir  
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn  
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái  
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda  
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes  
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen

@PlaidCymruOgwen



### Siân Gwenllian

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

#### CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

# Ysgoloriaeth gwerth £1,500 ar gael i bawb fydd yn astudio rhywfaint o'u cwrs prifysgol yn Gymraeg

Mae Prifysgol Bangor wedi croesawu'r cyhoeddiad y bydd pob myfyriwr fydd yn dechrau yn y Brifysgol fis Medi, ac yn astudio o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg, yn derbyn ysgoloriaeth o £1,500 dros dair blynedd.

Daw hyn yn sgil y cyhoeddiad gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol eu bod yn ymestyn y Cynllun Ysgoloriaeth Cymhelliant i gynnwys pob myfyriwr fydd yn dechrau yn y brifysgol yn mis Medi 2020 sy'n dewis astudio o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd deiliaid yr ysgoloriaeth yn derbyn £500 y flwyddyn (neu £1,500 dros dair blynedd).

Fel arfer mae'r Coleg yn cynnig ysgoloriaeth cymhelliant i hyd at 200 o fyfyrwyr bob blwyddyn ond mewn ymateb i argyfwng Covid-19, mae'r Coleg wedi penderfynu ymestyn y cynllun ar gyfer pob myfyriwr cymwys, gan dargedu o leiaf 500 o fyfyrwyr, a hynny ar gyfer pa bynnag bwnc y maent yn dymuno ei astudio, gan gynnwys y Gymraeg a chysiau Addysg Gychwynnol Athrawon is-raddedig.

Gobaith y Coleg yw y bydd y cymhelliad ariannol hwn yn cefnogi mwy o siaradwyr Cymraeg i ddewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn mis Medi ac yn cefnogi prifysgolion, sy'n wynebu heriau sylweddol yn sgil yr argyfwng, i ddarparu cysiau Cymraeg ar gyfer cynifer o fyfyrwyr â phosib.

Bydd hyn yn ychwanegol i'r cymorth sydd eisioes yn cael ei gynnig gan Prifysgol Bangor i gynorthwyo'r rheini sy'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o ymdrech Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio trwy'r Gymraeg, mae Prifysgol Bangor wedi bod yn cynnig bwrsariaeth gwerth o £250 y flwyddyn i'r rhai sy'n dewis astudio mwy na 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Meddai'r Athro Andrew Edwards, Dirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol Bangor: "Astudir mwy o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mangor nag yn unman arall yng Nghymru a bellach gellir astudio elfennau o bob maes academaidd trwy gyfrwng y Gymraeg yma - o fodiwl unigol hyd at radd gyfan."

Oherwydd fod cymaint yn astudio

cyfran helaeth o'u cwrs yn Gymraeg ym Mangor nag yn unman arall, mae cymuned fywiog a gweithgar dros ben i'r myfyrwyr yma hefyd, ac mae hynny yn gwneud Bangor yn le delfrydol i astudio."


Mae'r cynllun wedi derbyn cefnogaeth eang ar draws y sector Addysg Uwch. Meddai Lleucu Myrddin, Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Prifysgol Bangor: "Mae'n wych gweld ymrywmiaid y Coleg i annog mwy o fyfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac i roi cefnogaeth ychwanegol i brifysgolion a myfyrwyr mewn cyfnod mor ansicr. Gobeithio'n wir y bydd nifer dda o bobl ifanc yn manteisio ar y cyfle arbennig hwn ac ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wych sydd ar gael ar eu cyfer."

Dywedodd Cofrestrydd y Coleg, Dr Dafydd Trystan: "Wrth ymateb i argyfwng Covid-19 mae'r Coleg wedi ymrwmo i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi myfyrwyr a phrifysgolion. Mae'n bleser gennym felly ymestyn y cynllun ysgoloriaeth cymhelliant ac anogwn unrhyw un sy'n ystyried dechrau cwrs prifysgol yng Nghymru yn mis Medi i astudio'n Gymraeg ac i ymgeisio am ysgoloriaeth."


Wrth groesawu'r cynllun meddai'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams: "Mae'n newyddion gwych bod y Coleg yn ehangu yn sylweddol, nifer yr ysgoloriaethau i fyfyrwyr ar gyfer mis Medi, gan gynnwys is-raddedigion Addysg Gychwynnol Athrawon a Chymraeg. Rydym angen llawer rhagor o athrawon hyderus ddwyieithog i ddiwallu'r twf mewn addysg Gymraeg ac i gefnogi'r cwricwlwm newydd o 2022 ymlaen."

Am ragor o wybodaeth ac i ymgeisio am ysgoloriaeth, dylai myfyrwyr ymweld â gwefan y Coleg a llenwi ffurflen gais.

Mae mwy o wybodaeth am y Bwrsariaethau a gynigir gan Prifysgol Bangor yma: <https://www.bangor.ac.uk/studentfinance/info/welshbursary.php>



## Adnabod Bro Llais Ogwan



Mae llythyren gyntaf pob ateb yn cael ei roi i chi, ond mae rhai o'r atebion efo mwy nag un gair.

- A : Stad o dai ger y Caledffwrdd
- B : Glasinfryn
- C : Ddim yn addoldy ym Mraichmelyn
- D : Cae lliwgar
- E : Mae coflech iddo ar siop chips Mabinogion neu Ogwen Stores erstalwm
- F : Roedd y siop yma yng Ngharneddi
- FF : Cyfaill i Caradog o'r Maes
- G : Dringwch y rhain, nid ydynt yn ddi-liw
- H : Cartref y defaid enwog
- I : Mae gan yr ysgolhaig yma Fro
- J : Prifddinas a chapel
- L : Rhwng Plas Ffrancon ac Ysgol Llanllechid
- LL : Ger Castell Penrhyn
- M : Grwp a enwyd ar ôl prifathro
- N : O groeslon Coetmor i fyny
- O : Afon
- P : Cae chwarae i'r rhochwyr
- R : Caellwyngrydd
- RH : Allt werdd
- S : Fferm ar y ffordd gefn i Dalybont
- T : Anedd-dai i'r gwneuthurwyr dillad
- W : Un o'r Moelion
- Y : Cerdd enwog am anifail gan fardd sydd wedi ei gladdu yng Nghoetmor

**Atebion ar dudalen 22**

## MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd  
Atgyweirio MOT  
Gwasanaethu Cerbydau  
Cydbwysu Teiars  
Batris  
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com  
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,  
Gwynedd LL57 4AY





# Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

*Daw colofn y mis hwn allan o Llais Ogwan Mawrth/Ebrill 1975. Fel y nodwyd yn rhifyn y mis diwethaf credir mai'r diweddar Caeron Roberts, Tregarth, Ysgrifennydd y côr ar y pryd, oedd awdur y golofn.*

## Yr Hen Fferynnau

Roedd y côr wrth ei fodd yn cystadlu, ond er hyn cynhaliwyd llawer iawn o gyngherddau gwych ac wrth edrych ar y rhaglenni gwelir yr hen fferynnau yn ymddangos o hyd, 'Martyrs of the Arena,' 'Cytgan y Pererinion,' 'Sound an Alarm,' 'Crossing the Plain,' a hefyd 'Y Pysgotwyr.' Hoff ddarnau corau meibion a'r gynulleidfa hefyd cofwch chi. Mae llawer o feirniadu ymysg cerddorion y dyddiau hyn ynglŷn â'r hen ddarnau ond rhaid gofyn y cwestiwn - beth sydd wedi dod yn eu lle mewn cerddoriaeth fodern sydd yn ganadwy a hefyd sy'n boddhau'r gynulleidfa? Pobl gyffredin wedi dod i fwynhau gwrando ar gôr, ac nid arbenigwyr, yw'r gynulleidfa. Hwyrach fy mod yn crwydro oddi wrth hanes Côr y Penrhyn ond hoffwn roi enghraifft o'r canu hwn. Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn 1971 rhoddwyd cyngerdd ar nos lau gan gôr yr eisteddfod,



Llun o'r Côr a dynnwyd ar gyfer ymweliad â'r Festival Hall yn Llundain yn 1955. Oes rhywun yn adnabod rhai o'r aelodau tybed?

yn dilyn hanes cerddoriaeth am gan mlynedd i fyny i'r oes bresennol. Bu canu bendigedig ar yr hen anthemau a'r fferynnau adnabyddus ond pan ddaethpwyd at y darnau cyfoes aeth ugeiniau, os nad cannoedd o bobl allan fesul tipyn. I mi roedd hyn yn amlygu nad oedd ganddynt ddiddordeb o gwbl yn y caneuon cyfoes.

## Anghydweld ac ymateb yn gryf

Fel ymateb i'r erthygl uchod derbyniodd Llais Ogwan lythyr gan D. Wynn Williams o Landygái ac fe ymddangosodd y llythyr yn rhifyn Ebrill 1975. Dyma gynnwys y llythyr hwnnw.

*Annwyl Syr,  
Rwyf ffinau fel eich sylwedydd ar faterion y côr yn cael pleser wrth ganu a gwrando ar yr hen fferynnau. Gwahaniaethwn yn ein barn nad oes rinwedd mewn cerddoriaeth gyfoes, ac na fedr y bobl gyffredin (pwy bynnag ydynt?) eu mwynhau. Fel pe bai hyn yn annigonol, fel enghraifft dyfynna'r sylwedydd gyngerdd Nos lau yn Eisteddfod Bangor 1971 fel enghraifft, heb drafferthu i archwilio'n ddigon manwl i'r rhesymau i gymaint o'r gynulleidfa ymadael cyn y diwedd. Tybed a feddyliond y gallai fod rhesymau eraill? Un o'r rhain yn sicr, oedd hyd eithafol y cyngerdd a threfn y canu, fel na chlywyd y darnau cyfoes nes*

*i'r gwrandawyr gael syrffed ar anthemau, ac erbyn hynny yr oedd mynd adref yn blaenori ar bopeth arall. Cofaf ddarllen yn y wasg ar y pryd feirniadaeth am gynnwys 'Teyrnasoedd y Ddaear' yn y rhaglen, o gofio dehongliad gymaint gwell o'r un darn gan enillwyr y gystadleuaeth i gorau gwledig. Mae'n amlwg oddiwrth oslef y golofn nad oedd y sylwedydd yn aelod o barti a gafodd y profiad o berfformio'r gerddoriaeth gyfoes ac o ganlyniad mae'n gostwng i ragfarn. Hwyrach y buasai'n well ymddiried ymdriniaeth o'r miwsig cyfoes i'r "arbenigwyr" y sonnir amdanynt yn yr erthygl. Un o'r darnau prawf yn yr ail gystadleuaeth i gorau meibion yn yr Eisteddfod oedd 'Y Sipsiwn' gan frenin y cyfansoddwyr cyfoes, sef William Mathias. Gan fod Côr y Penrhyn wedi cystadlu, buasai'n dda clywed barn yn sylwedydd dienw ar honno!  
Yr eiddoch yn bur, D. Wynn Williams.*

## Llythyrau

### Datganiad Pwyllgor Cyffredinol Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

Ni fydd Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn cael ei chynnal eleni. Mae pwyllgor yr eisteddfod wedi dod i'r penderfyniad na fydd modd ei chynnal fis Tachwedd yn ôl yr arfer, a hynny oherwydd yr ansicrwydd yn yr amgylchiadau dyrys presennol.

Heb sicrwydd y byddai'n bosibl cynnal yr eisteddfod fis Tachwedd, barn y pwyllgor yw na fyddai'n deg ac ystyriol gwahodd cystadleuwyr i


gynhyrchu gwaith cartref na dysgu ac ymarfer darnau i'w perfformio. Teimlwyd hefyd na fyddai'n briodol disgwyl i'r ysgolion ymateb mewn cyfnod mor anodd i'r athrawon a'r plant.

Gyda golwg ar gynnal yr eisteddfod yn y dyfodol, byddai'r pwyllgor yn falch iawn o gael croesawu rhai ifanc o'r ardal i gynorthwyo gyda'r gwaith.

Ymholiadau - cysyllter â'r ysgrifennydd, Lowri Roberts trwy ebost:

l.roberts11@btinternet.com

[www.llaisogwan.com](http://www.llaisogwan.com)  
Trydar: @Llais\_Ogwan



# Cymeriadau'r Côr

**Cymeriad Y Côr y mis hwn ydy Gareth Williams o Lanfairpwll sy'n canu gyda'r tenoriaid cyntaf. Peiriannydd gyda BT oedd Gareth cyn ymdeol.**

1. **Be' ydy dy enw llawn?**  
Gareth Wyn Williams
2. **Oed? 67** mlwydd oed
3. **Gwaith** Wedi bod yn gweithio am 38 mlynedd gyda BT ond wedi ymdeol ers tair blynedd.
4. **Lle wyt ti'n byw?** Llanfair PG.
5. **Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Magwyd fi ar fferm ym Mhenrhos, Bangor, lle mae Ysbyty Gwynedd rŵan.
6. **Pa dri pheth fasa'n dy ddisgrifo orau?** Caredig, isio gwneud y gorau bosib' ym mhopeth ac amyneddgar.
7. **Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr** - Wedi ymuno a'r côr tua blwyddyn yn ôl.
8. **Pa lais wyt ti?** Tenor Un
9. **Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Wedi mwynhau canu ar hyd fy mywyd ond byth wedi cael digon o amser i ymuno â chôr. Ar ôl ymdeol mi wnes i benderfynu bod rhaid gwneud rhywbeth am hynny. Mi wnaeth Anne fy ngwraig gyfarfod

Dafydd Pritchard, Tenor Un yn Ysbyty Gwynedd un diwrnod a'i holi a oedd modd i mi ymuno gyda Chôr y Penrhyn. Wedyn, cefais wahoddiad i'r ymarfer cyntaf, ac mi ges i fwynhad o'r canu a hefyd cyfarfod nifer o ffrindiau newydd. Mi ges i groeso arbennig gan bawb.

10. **Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** 'Gwinllan a Roddwyd'
11. **Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Dwi'n hoffi Cerys Matthews a Bryn Fôn yn Gymraeg ac Elton John a Adele yn y Saesneg.
12. **Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Atgofion clir o gael mwynhad yn gwranddo ac yn canu caneuon pop o'r 60au a'r 70au efo roc a rôl, caneuon Motown a chaneuon gwlad yn apelio mwy na chaneuon diweddar.
13. **Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Yr atgofion gorau i mi oedd cael canu ar lwyfan Somerset House yn Llundain gyda Damon Albarn o flaen nifer mawr iawn o bobl. Teimlo balchder mawr am gael y fraint o gael y cynnig gan Gôr y Penrhyn i sefyll ar y llwyfan arbennig hwnnw.



14. **Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Golff, DIY a cherdded
- 15 - **Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Denu mwy o bobl ifanc i'r côr a gweld côr arbennig i bobl ifanc yn cael ei greu ym Methesda a'r cylch. Efallai cawn ganu caneuon modern hefyd yn y dyfodol.

## gair neu ddau

### John Pritchard

#### DAMEG

Mae'r Arglwydd Iesu Grist yn drwm ei lach arnynt. Os rhywbeth, mae'n fwy beirniadol o'r rhain nag o neb arall. Dyna sy'n gwneud i mi anesmwytho wrth weld y duedd sydd ynof i fod yn debyg iddynt. Ar brydiau, mae'r duedd honno'n fwy nag y carwn ei gydnabod. Mae hynny'n amlwg i mi, a gwaetha'r modd mae'n debyg ei fod yn amlwg i bobl eraill hefyd.

Yn y ddamog a adroddodd am y Pharisead a'r casglwr trethi mae Iesu'n portreadu'r hunan-gyfiawnder hyll a oedd yn wrthun iddo. Mae'n disgrifo'r ddau ddyn yn gweddio yn y deml: y Pharisead crefyddol yn llawn ymfrost yn ei ddaioni ei hun ac yn gwbl ddirfiol o'r casglwr trethi; a'r casglwr trethi hwnnw'n gwneud dim ond ceisio maddeuant a thru-garedd Duw. Gwn mai dymuniad Iesu yw

bod pawb ohonom yn debycach i'r casglwr trethi nag i'r Pharisead; ond rwy'n ofni nad felly mae hi yn f'achos i'n rhy aml o lawer. Rhaid gwyllo rhag yr hunan-gyfiawnder sy'n gwneud i ni ein hystyried ein hunain yn well nag yr ydym, ac yn well na phobl eraill. Rwy'n ymwybodol o'm hangen am y gras i gadw fy ngolwg ar Iesu, ac ar yr Efengyl sy'n f'atgoffa nad trwy fy naioni fy hun, ond trwy haeddiant Iesu Grist, yr wyf yn dderbyniol yng ngolwg Duw. Mor bwysig yw cofio'r hyn a ddywed Iesu ar ddiwedd y ddamog hon: 'Oherwydd darostyngir pob un sy'n ei ddyrchafu ei hun' (Luc 18:14).

Roedd y Pharisead yn diolch nad oedd 'fel pawb arall, yn rheibus, yn anghyfiawn, yn odinebus, na chwaith fel y casglwr trethi yma', ac yn ei ganmol ei hun am ei fod 'yn ymprydio ddwywaith yr wythnos, ac yn talu degwm ar bopeth a gaf' (18:11-12). Condemnio'r dyn hwn a wnâ Iesu am ei fod mor barod i ymfrostio ynddo'i hun ac mor barod hefyd i gyfrif pobl eraill yn salach nag ef. Nid ein cymharu'n hunain ag eraill yn y gobaith o'n gweld ein hunain yn well na nhw

a ddylem, ond ein cymharu'n hunain â Iesu, er mwyn gweld ein hamherffeithrwydd a'n beiau, fel y ceisiwn y maddeuant sydd ar ein cyfer.

Er lles ein heneidiau, rhaid ymwrthod a hunan-gyfiawnder y Pharisead y soniodd Iesu amdano. Ond tybed - yn y dyddiau argyfyngus sy'n dal i'n hwynebu'r haf hwn - na fyddai'r mymryn lleiaf ohono'n lles i'n hiechyd? Wrth i'r cyfyngiadau a fu arnom dros y misoedd diwethaf gael eu llacio ddiwedd mis Mehefin, a ninnau'n gweld y torfeydd enfawr yn rhuthro i draeth a stryd a pharc fel pe na fyddai'r pandemig wedi'n taro o gwbl, tybed nad oes angen i bawb ohonom ein cymharu ein hunain â phobl eraill? Ie, tybed nad oes angen i ni fedru dweud ein bod yn parhau i wneud rhai pethau y bu raid i ni eu gwneud dros fisoedd y Cloi Mewn? A thybed hefyd na fydd hynny'n golygu y byddwn yn dweud nad ydym yn gwneud rhai pethau y mae pobl eraill yn eu gwneud? Nid er mwyn dweud ein bod yn well na neb arall, ond yn syml iawn er mwyn ein cadw'n hunain a phobl eraill yn fyw ac iach.



# CHWILAIR

## Gwledydd Ewrop

A	A	S	C	R	A	M	N	E	D	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M
B	V	B	W	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G	V	H	M
D	W	H	U	E	Z	M	X	V	F	L	A	G	W	I	T	R	O	P	A
D	E	D	N	A	D	P	M	F	A	U	Q	U	S	O	F	R	P	Y	Q
Z	I	G	R	H	C	E	R	A	U	M	W	N	O	Y	R	I	A	S	Z
U	D	T	F	D	X	A	N	U	L	P	W	R	H	C	Q	H	W	E	H
O	A	Y	E	E	I	G	E	O	M	T	H	E	P	T	T	C	B	B	C
U	L	U	J	N	P	L	T	M	I	V	A	V	D	C	B	B	F	R	F
O	G	J	C	V	I	I	R	R	X	I	M	H	T	T	O	S	K	O	P
W	R	R	C	M	K	C	B	O	R	C	X	V	R	Y	H	S	T	M	R
E	F	I	Y	J	D	Z	H	B	C	W	O	S	C	R	A	I	X	N	I
L	N	D	X	J	J	M	B	W	T	E	X	M	D	X	K	F	U	P	C
Q	A	N	Y	O	I	L	F	E	R	Z	Q	R	O	C	T	D	G	W	S
L	B	I	A	Z	E	B	E	A	J	K	J	C	L	N	L	R	V	O	G
J	L	F	I	P	W	P	G	G	S	O	W	J	J	Q	U	L	F	S	V
T	A	F	R	X	E	U	E	G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I	W	T
Z	H	K	T	V	A	O	G	B	N	K	A	D	S	I	K	O	G	D	H
B	S	I	S	U	R	R	O	X	A	L	M	A	E	N	A	G	X	R	A
E	E	K	W	G	K	S	P	A	E	N	D	A	N	T	O	G	W	B	M
B	J	R	A	F	U	N	K	B	Z	E	B	B	C	U	Y	C	F	T	Z

Yn y chwilair mis yma mae enw DEUDDDEG GWLAD YN EWROP i'w darganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acy yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

NID OES ANGEN ANFON ATEBION AR GYFER Y CHWILAIR YMA, I'CH DIDDORI YN UNIG YW.

**Dyma atebion Mehefin** :- Peter, 32-67; Clement, 88-97; Alexander, 105-115; Pius y Cyntaf, 140-155; Stephen, 254-257; Sylvester, 314-335; John y Cyntaf, 523-526; Gregory y Pydwyrydd, 827-844; Urban yr Wythfed, 1623-1644; John Paul yr Ail, 1978-2005; Benedict, 2005-2013; Francis, 2013-

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Yn ystod mis Mehefin, cafwyd ail gyfle i gyfrannu at ddatblygu maniffesto Plaid Lafur Cymru ar gyfer etholiadau Senedd Cymru 2021 a chyfle am y tro cyntaf at ddatblygu maniffesto Plaid Lafur Prydain ar gyfer etholiad cyffredinol 2024. Hefyd cafwyd cyfle i gael hyfforddiant neu addysg ar y we gan Blaid Lafur Cymru a Phlaid Lafur Prydain.

Yn ogystal â hyn, daeth adroddiadau wythnosol o Lywodraeth Lafur Cymru am eu gweithredoedd e.e. y llwyddiant i ddileu cysgu ar y stryd ac i sicrhau bod cyfradd marwolaethau Covid-19 Cymru yn llai nag un Lloegr. Cafwyd cefnogaeth gref

gan lawer am y ffordd ofalus yr oedd Prif Weinidog Cymru yn ymdrin â chaethiwed y cyfnod clo.

Trist oedd clywed bod nifer y bobl a oedd wedi colli eu gwaith a nifer y bobl a oedd angen help y banciau bwyd yn ystod tri mis cyntaf y cyfnod clo wedi dyblu, ond da oedd clywed bod Partneriaeth Ogwen wedi sefydlu cronfa i helpu pobl leol. Deallwn na fydd Cyngor Gwynedd yn mabwysiadu'r cyfle i gael wythnos arall o ysgol ym mis Gorffennaf yn lle mis Hydref.

Y mae cyfarfodydd cyffredinol blynyddol y gangen a Phlaid Lafur Arfon i fod i gael eu cynnal ym mis Gorffennaf.

## Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

Da oedd clywed bod Ffiona Sherlock, Tŷ Capel Carmel wedi gwella ac yn dechrau gweithio eto.

Dymunwn yn dda i Denise Roberts, Ffordd Llanllechid, sy'n disgwyl am lawdriniaeth yn yr ysbyty.

Cynyddodd nifer y bobl a oedd yn mynd o gwmpas yr ardal ar feiciau yn sylweddol ar ddechrau mis Mehefin a bu llawer o bobl leol yn cerdded (er nad oedd y tywydd mor ffafriol yng nghanol y mis), gan groesi'r ffordd yn aml i fodloni'r rheol dau fetr.

Dechreuwyd ar y gwaith hirddisgwylidiedig o newid mynedfa Elidir, Ffordd Llanllechid, i greu gwell lle parcio i'r perchnogion. Newidiodd adloniant trigolion Llwyn Bedw o gwis i "charades" ar un nos Sadwrn, gyda Sara ar y microffon.

Da oedd gweld bod y glaswellt mewn llefydd cyhoeddus wedi'i dorri a bod yr ysbwriel ynddynt wedi'i godi, ond gresyn oedd gweld bod rhai'n dal i luchio ysbwriel allan o gerbydau wedi hynny. Os bydd angen cael gwared o ysbwriel mawr trwy fynd i'r ganolfan ailgylchu ym Mangor, dylid ffonio Cyngor Gwynedd ar 01766 771000 i wneud apwyntiad am yr wythnos ddilynol.

Llenwyd twll dwfn yn y ffordd ger 18/19 Hen Barc o fewn dyddiau, wedi i'r cynghorydd Godfrey Northam gwyno wrth Gyngor Gwynedd am y perygl.

Am nad oedd y plant yn cael mynd at y caeau chwarae i fynd ar i siso, y llithren, y siglenni ac ati, bu nifer ohonynt yn hapus wrth chwarae gartref ar drampolin, scwter etc a chwarae peldroed yn yr ardd neu yn y stryd.


Mae trigolion y pentref yn ymdopi'n dda gyda'r drefn newydd yn y siop, sef dilyn llwybr un ffordd, cadw pellter, dim mwy na thri person yn y siop ar unwaith ac yn y blaen.





# Ysgol Bodfeurig

Heb os, mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn wahanol iawn i bob plentyn. Rydym yn falch iawn o bob un o blant yr ysgol sydd wedi addasu a cario mlaen i ddysgu mewn ffordd tra wahanol.



## Dosbarth Ogwen

Dros y mis diwethaf mae dosbarth Ogwen wedi bod yn brysur yn dysgu am gerddoriaeth ac am y tywydd yn ogystal a chael wythnos arbennig o heriau amrywiol!

Yn ystod yr wythnos heriau llwyddodd Tomos a'i deulu i ddringo pob cam i gopa'r Wyddfa ar risiau'r ty - dros 4610 gris i gyd! Da iawn chi!

Yn ystod yr wythnos gerddoriaeth roedd yn wych gweld fideos o blant yn chwarae drymiau, gitars ac un yn chwarae didgeridoo! Diddorol hefyd oedd sesiwn carioci ar Zoom, llawer o chwerthin gan bawb!

Mae'r thema tywydd wedi rhoi cyfle i rai edrych ar ddata tywydd gan greu graffiau tra bo eraill yn mwynhau ysgrifennu erthyglau papur newydd a straeon amdano.



## Dosbarth Idwal

Mae dosbarth Idwal wedi bod yn mwynhau dysgu am y tywydd a'r tymhorau ac bellach wedi symyd i thema môr ladron.

Yn ystod y mis diwethaf rydym wedi gweld y plant yn cael coginio, paentio, creu modelau o longau mor ladron a cist trysor, gweld penbyliaid yn tyfu a lindys yn troi'n bili pala! Bu rhai yn brysur yn dysgu am liwiau'r enfys, eraill yn cadw dyddiadur tywydd a phawb yn mwynhau amser gyda'r teulu.

Rydym yn brysur yn paratoi i groesawu rhai o'r plant yn nol i'r ysgol. Unwaith eto amser gwahanol ond mae pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar i weld y plantos unwaith eto cyn yr Haf.

## Llongyfarchiadau

Dymunwn longyfarch Mrs Lliwen Jones ein pennaeth, a'i gwr Glynne ar enedigaeth mab bach yn ddiweddar. Cyrhaeddodd Deian Glyn chwech wythnos

yn fuan ac yn pwysu 5lb. Mae bellach adref, yn altro bob dydd ac mae pawb yno wedi mopio'n lân! Dymuniadau gorau i'r teulu bach gan bawb o deulu a ffrindiau Ysgol Bodfeurig.



## Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen,  
Rhiwlas ☎ 01248 355336

### Genedigaeth

Croeso i Nanw, merch fach Catrin a Sion, Tŷ'r Ysgol a chwaer fach i Owi. Llongyfarchiadau hefyd i Alwyn ar ddod yn daid am yr eilwaith Tybed beth mae Owi'n feddwl o'i chwaer fach?

### Cydymdeimlo

Bu farw perthynas i Nia Mair Jones, Cae Glas, yn ddiweddar. Roedd Rhodri Dafydd yn 41 oed, yn wreiddiol o Ddyffryn Arduwy ond wedi ymsefydlu yng Nghapel Garmon gyda'i wraig Eleri a'r plant, Mabli, Miri a Twm. Roedd yn gweithio i Gyfoeth Naturiol Cymru fel swyddog yr arfordir ac yn aml i'w glywed ar Galwad Cynnar ar fore Sadwrn. I'r rhai sy'n cofio Miss Jones, Ysgol Waun, roedd yn fodryb i dad Rhodri. Cofon hefyd at Gwenno Evans, Coetmor.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Mair Roberts, Hafod Lon. Bu farw ei chwaer, Mrs Laura Hosker, yn 91 oed. Cymhwysodd fel nyrs yn Ysbyty Môn ac Arfon a symud ymlaen wedyn i Lerpwl ac arbenigodd fel nyrs gofal y llygaid. Cyfarfu â'i gŵr, a oedd yn feddyg, yn un o ysbytai Lerpwl. Ond wedi ymddeol dychwelodd y ddau i fyw yn Neiniolen. Anfonwn ein cofon at Mai Williams, Nia Eurwen. Gwynftyn ac Alwyn a'r teulu. Bu'r angladd ym mynwent Eglwys Crist ac fe gymerodd Nia ran yn y gwasanaeth.

Hefyd fe fu farw mam Lesley Frost, Caeau Gleision, ac fe anfonwn ein cofon ati hithau hefyd a'r teulu.

### Camau Bach

Mae pethau'n gwella'n araf bach, y cyfyngiadau'n lleihau ond angen pwyll a gofal o hyd. Cofon atoch i gyd, yn enwedig y rhai sydd heb fod yn dda yn ystod y misiedd diwethaf.

### Cyswllt WiFi

Erbyn hyn, mae modd inni gysylltu â band llydan WiFi yn Neuadd y Pentref. Dymuna pwyllgor rheoli'r Neuadd ddiolch i Phil Roberts a Mike o gwmni Opal IT Services, Rhiwlas. Maen nhw wedi darparu a gosod y cyfarpar yn rhad ac am ddim, a maen nhw hefyd yn cynnig mynediad am ddim i'r rhyngwyd i ddefnyddwyr y neuadd. Mae'r pentref yn ddiolchgar iawn iddynt am fod mor hael.

Unwaith y bydd cyfnod clo y Covid drosodd, a'r Neuadd ar agor unwaith eto i'r cyhoedd, gallwch gysylltu ag aelod o'r pwyllgor i gael cyfrinair mynediad i'r wif.

### Hen dad-cu

Braf oedd cael gweld y pennill gan fy hen dad-cu (John T Job) yn rhifyn Mai o'r Llais, a braf hefyd oedd cael fy ngofyn i rannu gair bach amdano. Mae'n siŵr mai fel bardd (enillodd gadair dair gwaith a'r goron yn y genedlaethol), emynydd neu weinidog y mae llawer yn gwybod amdano. Efallai fod rhai sy'n gwybod ychydig mwy am ei hanes yn ymwybodol o'r cyswllt gyda'r streic fawr yn y Penrhyn. Ond hoffwn rannu gwedd arall ar ei fywyd - rhywbeth sydd wedi bod yn gymorth i mi yn ystod y cyfnod Cofid-19.

Symudodd JT i Fethesda yn yr 1890au gyda'i wraig newydd, Etta o Gei Newydd, a buan y daeth tri phlentyn i lonni'r aelwyd -

Olwen, Non ac Aneurin. Ond gwta dair blynedd yn ddiweddarach, oherwydd salwch, roedd y tri phlentyn ac Etta yn farw. Profiad dirdynol yw darllen rhai o'i ddyddiaduron o'r adeg hon. Dywed mewn un rhan:

"Yr wythnos ddiwethaf oedd wythnos dywyllaf fy mywyd hyd yn hyn. Gwasgwyd fi i gyfyngder ofnadwy! ... Etta i ffwrdd (yn ceisio gwella o TB), a minnau yn gorfod claddu Non fach - heb iddi ei gweled!"

Mewn man arall mae'n disgrifo'r profiad o golli un o'i ferched

"Bu farw gyda fy mraich chwith oddi tani, a'i llaw fechan hi yn fy llaw innau."

Anodd deall sut yr oedd modd iddo barhau wedi colledion mor fawr, a syndod yw darllen y farddoniaeth brydferth a ddaeth o'i bin-ysgrifennu yn y blynyddoedd canlynol. Mae ei brofiad, wrth gwrs yn adlais o'n hofn ninnau dros y misoedd diwethaf. Beth felly a'i cadwodd drwy brofiadau ofnadwy'r streic fawr a'i alar?

Haws gadael iddo yntau esbonio yn ei eiriau ei hun -

"Dyma flwyddyn arall - lawn o drugareddau wedi mynd heibio! Pa sawl blwyddyn sydd i mi eto, tybed? Yr wyf yn gadael y cwbl

yn Ei Law Ef, y Bugail Da, gan erfyn arno i'm tywys yn "yr Hen Lwybrau lle mae ffordd dda." (Y Beibl) Diolch am yr amddiffyn mawr fu drosof eleni, ac am gael fy nghadw rhag cyflawni pechodau ysgeler. Maddau fy holl anwireddau, O Arglwydd, a dod i mi dy iachawdwriaeth - i'm galluogi i fyw ac i bregethu yn dda, ac i ganu Barddoniaeth na wna lygru neb - ond yn hytrach i ddyrchafu dyn, ac er gogoniant Duw. Dy Ysbryd Sanctaidd dyro i'm goleuo, i'm hyfforddi, ac i'm cadw yn bur. Mae Etta fach, ac Olwen, a Non, ac Aneurin bach yn Dy Nefoedd Dy Hun. Tywys finnu atynt i'r Aneddle Lonydd yn yd amser da Dy hun.

Er mwyn Iesu Grist, Amen  
John T Job  
Nos ddiwethaf y fl. 1902

Dwi mor ddiolchgar fod yr un cysur ar gael heddiw i bob un ohonom. Cysur sy'n gymorth i wynebu marwolaeth, ond sydd hefyd yn rhoi nerth i barhau i fyw. Aeth Hen-dad-cu ymlaen i ailbriodi, collodd y plentyn cyntaf o'r briodas honno i salwch hefyd, ond daeth hogyn bach i lonni ei galon - fy nhad-cu. A dyma finnu nawr yn cael y fraint o ddilyn yn ei lwybrau ef o fyw yn yr ardal hyfryd hon.



John T. Job, Rhiwlas

### Sesiynau Siarad i Ddysgwyr


Byddwn yn ailgydio yn y drefn ar ôl i'r feirws fynd heibio.

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen

11.00 -12.00, 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

## Yn yr Ardd



Dyma ein mis poethaf yn aml. Mae'n amser braf i eistedd yn yr ardd a'i mwynhau. Mae'n syniad da i gadw planhigion yn edrych yn dda trwy dorri'r hen flodau oddi arny'n nhw. Mi fyddan nhw'n blodeuo am gyfnod hwy wrth wneud hynny.

Bydd angen sicrhau bod unrhyw blanhigion newydd yn cael digon o ddw'r - fe wnaiff dw'r golchi llestri yn iawn. Fel y nodwyd y mis diwethaf, mi fydd hofio'n rheolaidd i gadw'r chwyn dan reolaeth yn talu ar ei ganfed.

### Tasgau

1. Tacluswch farf yr hen w'r [clematis] ac unrhyw blanhigion eraill sy'n dringo.
2. Os oes gennych blanhigion mewn ystafell haul, gellir eu gosod yn yr awyr iach dros yr haf.
3. Dyfriwch y planhigion newydd ond byddwch yn ddarbodus efo'r dw'r.
4. Torrwch yr hen flodau oddi ar y planhigion er mwyn ymestyn y tymor blodeuo.
5. Os yw'n well gennych gael corbwmpen [courgette] torrwrch y marro yn ifanc.
6. Astudiwch eich catalog er mwyn archebu bylbiau at y gwanwyn nesaf.

7. Rhowch fwyd i'r lawnt yn arbennig os na roesocho fwyd iddi yn y gwanwyn.

8. Dyma amser da i roi llyfiad o baent i unrhyw waith coed. Sychu a Chadw Llysiau

Os ydych wedi tyfu mwy o lysiau nag sydd eu hangen, mae'n rhaid eu storio nhw'n ofalus.

Torrwch y coesau yn y bore ar ôl i'r gwllith ddiplannu a chyn bo'r haul yn grasboeth. Ni ddylech ddewis ond y dail sy'n berffaith. Mae rhai llysiau yn dirywio'n fuan iawn ar ôl eu casglu. Mae hyn yn digwydd oherwydd bod y siwgr naturiol yn troi'n startsh. Ceisiwch gadw'r bwydydd sy'n rhyddhau ethylen - fala, afocado, bananas, melon, nectarîn, gellyg, eirin gwlanog, eirin a thomatos -ar wahân i flodfresych, ysgewyll, bresych, ciwcymbr, pys a phupur.

Mae pob math o ffa yn rhewi'n dda, hefyd pys, blodfresych gaeaf, ysbigoglys (spinaets) a moron.

Mae'r rhan fwyaf o deulu'r bresych yn gallu aros yn y ddaear tan fod angen eu defnyddio.

Gellir claddu cnydau sydd â gwreiddiau ee moron neu fetys, mewn tywod. [Mae llawer i arddwr yn cadw'r rhain yn y ddaear tan ar ôl y Nadolig.]

Mae angen awyr yn yr oergell, felly peidiwch â'i gorlenwi. 3-5 gradd C (37-40 gradd F) yw'r tymheredd iawn.

Golchwch y llysiau cyn eu bwyta, ar ôl iddynt fod yn yr oergell.

Nid yw'n syniad da i gadw tomatos yn yr oergell; mae'n newid eu blas.


### Oeddech chi'n gwybod?

- Fod bresych yn cynnwys cymaint o galsiwm ag sydd mewn llaeth?
- Os yw eich ffa dringo yn barod i'w bwyta, fe fyddant yn torri'n hawdd heb blygu.
- Mae hadau pwmpen yn llawn sinc ac yn dda i iechyd y brostad.
- Mae banana yn dda i wrthweithio asid yn y stumog.
- Mae mwy o fitamin C mewn llysiau gwyrdd tywyll nag sydd mewn rhai gwyrdd golau.
- Mae oddeutu 200 o hadau mewn mefusen.
- Mae llus yn eich helpu i weld yn y tywyllwch.

# Llythyrau dadlennol newydd yn arwain at drysor o gyfrol am Caradog Prichard

Mae llythyrau hynod ddadlennol sydd newydd ddod i'r fei mewn perthynas â'r bardd a'r llenor, Caradog Prichard, wedi arwain at gyfrol newydd amdano. Mae Trysorau Coll Caradog Prichard (Y Lolfa) gan J. Elwyn Hughes yn cynnwys deunydd cwbl newydd sy'n taflu goleuni ar berthynas Caradog gyda nifer o'i gyfeillion a'i deulu.

Roedd yr awdur, J. Elwyn Hughes, yn gyfaill i Caradog Prichard a'i wraig Mattie, ac yntau'n hanu, fel Caradog, o Fethesda. Daw'r rhan fwyaf o'r deunydd o gasgliad newydd o bapurau Caradog Prichard, sydd erbyn hyn wedi'i gyflwyno i'r Llyfrgell Genedlaethol gan Mari Prichard, ei ferch. Mae'r casgliad yn cynnwys gohebiaeth rhwng Caradog a nifer o bobl eraill gan gynnwys aelodau o'i deulu,



cyfeillion a chydabod, yn eu plith rai o enwogion Cymru a chyn-gariadon. Mae'r gyfrol hefyd yn cynnwys cofnodion dyddiadur Caradog rhwng 1963 a 1980.

Dywed y Prifardd Alan Llwyd yn ei Gyflwyniad i'r gyfrol fod y

gwaith "yn llawn o drysorau... mae gennym le i ddiolch bellach fod y trysorau cudd hyn yn drysorau cyhoeddus."

Mae'r ohebiaeth fwyaf dadlennol yn ymwneud â mam Caradog Prichard a dreuliodd dros ddeng mlynedd ar hugain yn yr ysbyty meddwl yn Ninbych. Aethpwyd â hi yno tua diwedd 1923 pan oedd Caradog yn ei ardegau hwyr a newydd ddechrau ar ei yrfa ym myd papurau newydd, a bu yno hyd ei marwolaeth, yn 79 oed. Ymhlith y llythyrau, y mae dau a ysgrifennwyd gan Margaret Jane Pritchard ei hun o'r ysbyty at Caradog sy'n tanlinellu ei salwch meddyliol.

Mae salwch meddwl ei fam, a'i effaith arni hi ac arno yntau, ei mab, yn ganolog yng ngwaith llenyddol Caradog. Gwelwyd hynny yn ei nofel enwog Un Nos Ola Leuad.

Ond roedd yn dechrau ysgrifennu barddoniaeth amdani hyd yn oed cyn iddi fynd i Ddinbych, ac yntau'n newyddiadurwr ifanc. A'i helbulon enbyd hi a ysbrydolodd y tair pryddest a enillodd goron yr Eisteddfod Genedlaethol iddo dair gwaith yn olynol.

Trysorau Coll Caradog Prichard yw trydedd gyfrol J. Elwyn Hughes am yr awdur, yn dilyn Byd a Bywyd Caradog Prichard (2005) a Byd Go Iawn Un Nos Ola Leuad (2008). Bydd y gyfrol hon yn sicr o fod o ddiddordeb i unrhyw un sy'n ymddiddori mewn llenyddiaeth a barddoniaeth Gymraeg - mae'n gyfraniad pwysig arall gan J. Elwyn Hughes i'n hymwybyddiaeth a'n hadnabyddiaeth o Caradog Prichard.

Mae Trysorau Coll Caradog Prichard gan J. Elwyn Hughes ar gael nawr (£14.99, Y Lolfa).



## Ysgol Abercaseg

Ers sawl wythnos mae ein hysgolion yn Ganolfannau Gwarchod sy'n darparu gwasanaeth i blant gweithwyr allweddol. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae athrawon Ysgol Abercaseg wedi bod yn cynllunio a pharatoi tasgau a gweithgareddau amrywiol ar gyfer y plant sy'n dysgu o adref. Rydym fel athrawon wrth ein boddau'n cael gweld beth mae'r plant wedi bod yn ei wneud yn eu cartrefi yn ystod y cyfnod hwn. Dyma rannu gyda chi, y gymuned yr hyn mae plant Ysgol Abercaseg wedi bod yn ei wneud. Hoffem hefyd gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r holl rieni am eich cefnogaeth a'ch ymrwymiad dros yr wythnosau diwethaf. Gobeithiwn y bydd pawb yn mwynhau gwyliau'r haf cyn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.

### Dosbarth Llafar (detholiad)

Owain – Mae Owain wedi gwirioni gyda'r thema deinosauriaid ac wedi mynd ati yn syth i gwblhau gweithgareddau yn y pecyn dysgu adref. Yn ogystal â hyn mae o wedi bod yn canu hwiangerddi a mynd am dro i Foel Faban gyda'i deulu a chael siocled poeth ar y copa, blasus iawn!

Iwan – Mae Iwan wedi bod yn brysur gyda'i frawd mawr yn creu melin wynt i roi yn yr ardd yn ogystal â chwarae gem snap rhif a gwneud gwaith garddio. Mae Iwan wrth ei fodd yn gwneud gweithgareddau tu allan.

Belle – Yn ogystal â gwneud gweithgareddau o'i pheccyn adref mae Belle wedi bod yn brysur yn cwblhau llyfr mathemateg ac wedi llwyddo i gyfrif a chofnodi, ymarfer creu siapiau 2D a gwneud dot-i-dot! Hefyd, mae Belle wedi ysgrifennu cardyn pen-blwydd i'w chyfnither Elsa.

Efan – Mae Efan wedi bod yn mynd am dro i'r goedwig gyda'i deulu a chasglu pethau ar gyfer yr helfa'r gwanwyn. Da iawn ti Efan! Yn ogystal â hyn, mae Efan wedi bod yn brysur yn creu tŷ malwoden yn yr ardd gan ddefnyddio amrywiaeth o gerrig a digon o ddail i'r falwoden i fwyta!

Marilena – Yn ystod y tywydd braf mae Marilena wedi bod yn helpa blodau yn yr ardd, creu cardia i deulu, cael cystadleuaeth taflu awyren bapur a phlannu planhigyn tomato yn yr ardd. Yn ogystal â hyn, edrychwch ar y patrwm lliwgar mae Marilena wedi creu ar ei chrys-t gwyn, bendigedig Marilena!

### Dosbarth Ffrancon (detholiad)

Cai – Mae Cai wedi cael hwyl gwneud y sialens 1 munud gan drïo cydbwyso ar un goes, creu offerynnau allan o offer arferol a llawer mwy.

Elin – Mae Elin wedi bod yn brysur yn

cwblhau'r helfa llyfrau, creu cerddoriaeth ar y seiloffon dŵr a chwarae tu allan yn yr haul. Freya – Mae Freya wedi bod yn brysur yn cwblhau'r arbrawf enfys, ac wedi ymarfer ysgrifennu yn y pecyn gwaith.

Oscar – Mae Oscar wedi bod yn brysur yn ymarfer ffurfio a dysgu am drefn yr wyddor ac yn brysur yn adeiladu.

Kieran – Mae Kieran wedi bod yn brysur yn coginio cacennau hefo Mason ei frawd bach, ymarfer cyfri a chwarae yn yr ardd.

### Dosbarth Tryfan (detholiad)

Cêt – Mae Cêt wedi cael hwyl yn cynnal arbrawf gyda phethau da er mwyn creu enfys! Mae hi hefyd wedi bod yn ymarfer ei sgiliau ysgrifennu. Gwych, Cêt!

Cian – Tyfu berw, ymarfer ei waith amser ac ysgrifennu a chynnal arbrawf enfys yw'r ychydig o bethau mae Cian wedi bod yn ei wneud i gadw'n brysur!

Gwenlli – Ymarfer ei sgiliau tynnu gan

ddefnyddio doliau LOL mae Gwenlli wedi bod yn ei wneud! Mae Gwenlli ac Ynyr hefyd wedi bod yn plannu blodau yn yr ardd.

Illtud – Mae Illtud wedi bod yn brysur ofnadwy! Mynd am dro, gwneud jig-so, cwblhau gweithgareddau Mathemateg a darllen am y cymylau yng Ngwyddoniadur y Pethau Pwysig iawn yw ychydig o'r pethau mae Illtud wedi bod yn ei wneud.

### Dosbarth Ogwen (detholiad)

Isla – Os ydych yn llwglyd ar ôl y cyfnod yma gofynnwch wrth Isla am gyngor coginio! Mae wedi bod wrthi yn coginio pizza a chacen, sy'n edrych yn hynod o flasus! Mwynhaodd yrarbrawf enfys, ac mae wrthi'n brysur yn cwblhau'r pecyn gwaith.

Dafydd – Mae Dafydd wedi bod yn cadw'n heini wrth fynd i gerdded mewn amryw o lefyddgwahanol. Wrth fynd am dro daeth o hyd i bethau diddorol iawn. Ffeindiodd bry



## Ysgol Abercaseg

### parhad o t19

cop eithaf mawr, ond yr un mwyaf diddorol a chyffrous oedd yr ogof! Cafodd hefyd wers hanesyddol gan ei fam wrth fynd am dro a dysgodd nifer o ffeithiau am sut oedd Bethesda flynyddoedd maith yn ôl.

Cole – Mae Cole wedi mwynhau'r helpa o amgylch y cartref, ac wedi llwyddo i ddod o hyd ibob un. Mae o hefyd wedi bod yn cadw yn heini trwy gwblhau'r heriau ymarfer corff.

Jac Delwyn – Mae Jac wedi dal ati ac wedi dyfalbarhau gyda'i lawysgrifen, mae'n ymarferffurfio llythrennau a rhifau yn ddyddiol. Wrth fynd am dro, sylwodd fod llythrennau o'igwmpas ym mhob man! Daeth o hyd i frigyn anferthol ym Mharc Meurig ac aeth ati iamcangyfri hyd y brigyn ac yna ei fesur. Os ydy eich car yn fudur, mi fydd Jac yn siwr o helpu! Aeth ati i helpu ei fam a'i dad i olchi'r car. Chwarae teg i chdi Jac!

### Dosbarth Ffrydlas (detholiad)

Angharad – Mae Angharad wedi bod yn greadigol iawn gyda Lego, wedi gwneud cacen banana ac wedi bod yn didoli yn defnyddio Diagram Carroll.

Dafydd – Mam bach, mae Dafydd wedi bod yn andros o brysur! Mae wedi gwneud llwyth o waith darllen a mathemateg, mae wedi darganfod bod ei frawd yn mesur 155cm. Mae o wedi cael profiad gwych yn adeiladu tŷ adra gyda'i dad a Shaun, ac wedi gwneud llun anhygoel o barot yn defnyddio syniadau o lyfr darlunio arbennig.

Gruff – Mae Gruff wedi bod yn brysur iawn mis diwethaf, mae o wedi gwneud sgons cartref. (Mae Miss Williams a Mrs Briggs yn edrych ymlaen i gael sgons gen ti ryw ben, Gruff!) Mae wedi gwneud arbrofion diddorol iawn gyda phapur tîsw gegin, pinnau ffelt a dŵr, wedi gwneud graff hoff liw pawb yn y tŷ, wedi rhoi cynnig gwych yn ysgrifennu ei enw yn defnyddio bodiau ei draed i ddal y beiro!

Gwion – Gwaith dweud yr amser, adio cannoedd a lluosid dim ond ychydig o beth mae Gwion wedi bod yn gwneud i gadw'n brysur. Mae Gwion hefyd wedi bod yn brysur yn gwneud anrhegion i'w ffrindiau, syniad bendigedig i godi calon!

Lily – Mae Lily wedi cwblhau her 1 munud ac wedi darganfod ei bod hi'n gallu gwneud 28 'eistedd a neidio' ar y trampolîn mewn 1 munud, wedi gwneud llun bendigedig o Banda, wedi cwblhau'r helpa dyfeisiwr, wedi ateb llwyth o gwestiynau am y deinosoriaid ac wedi gwneud llun arbennig o'r Triseratops.

## Nyth y Gân

### Gwaredwr y Byd

(*Salvator Mundi*, paentiad Leonardo da Vinci o Iesu Grist)

Ei lun sy'n gafael ynoch, a hanes  
Sydd yn hwn fel gwyddoch,  
Yn hen a rhan ohonoch  
Yn y byd ble bynnag boch.



### Peillio

Yn gynnar y daw'r gwenyn, yn bwylllog  
I beillio sawl blodyn;  
O'r hadau gwelir wedyn  
Liwiau braf ar ael y bryn.

### Ffos y Felin

Mae hi'n rhoi ei grym yn rhydd, yn ynni  
I'r mecanwaith celfydd;  
Rhed y dŵr ar hyd y dydd  
I olwyn droi echelydd.

### Y Saer Maen

Y gwir sydd yn ein geiriau yr awr hon  
Wrth roi ein teimladau  
Am ŵr sy'n codi muriau,  
Y gŵr sy'n gweld bwch a'i gau.

### Gaeaf y Cwm

O grwydro'r dyffryn diffrwyth  
Gwelwn y lle mor llwm,  
Yn dyfiant yn y gweunydd  
Mor fyr yw glaswellt cwm.

Trwy grinder rhedyn rhodio  
I gwr y gwyntoedd main  
Lle safai merlod mynydd –  
Mor galed oedd y rhain.

Eu gwisg yn drwchus drechai  
Y dywydd ddôl i'w rhan,  
A hynny drwy y flwyddyn  
O fyw'n yr uchel fan.

Llwynog â'i gyfran gyfrwys  
A meini uwch ei ben  
Yn swatio, eto'n gwrando,  
Tu ôl i gadarn len.

Pan ddaw rhyw eglur oglau,  
Y blewyn coch a gwyd  
Ei ffroenau main i'w arwain  
At fymryn prin o fwyd.

Dafydd Morris

### Castanwydden y Meirch

Heddiw mae'r gastanwydden – â'i hudol  
Flodau ar bob cangen;  
Canhwyllau'n lliwiau llawen  
A'u pêr wawl yn puro'r pren.



### Y Fronfraith

(yr aelod o Gôr y Wig sy'n canu gyntaf yn y bore)

O'r galon cyfyd bronfraith – ei hunawd  
Swynol ar foreugwaith;  
Am orig y mae'i haraith  
Yn fawl hael i'r dwyfol waith.

### Draenen Ddu

Mae'r ddraenen mor ysblennydd – yn ei gwisg  
O wyn ar y bronnydd,  
Ac eilun i arlunydd  
Ei chlogyn ar derfyn dydd.

### Y Wennol

Yn firain daw o fwriad, – a gwanu  
Uwch y gweunydd gwastad;  
Daw'n glau i ymweld â'n gwlad,  
Yn ôl â'i hudol hediad.

### Gwanwyn yn y gweunydd

Sawr gwin gwefusau'r gweunydd – yn hudol  
Briodas ysblennydd;  
Llwyfan i lân lawenydd  
A'r cusanu'n dathlu'r dydd.

### Hen Amddiffynfa Gwynedd

Anrhydedd y Carneddau – yw iddynt  
Roi noddod fel caerau  
Uwch y tir yn gylch tyrau,  
Yn gylch rhag yr estron gau.

### Cymru

Na chiliwn rhag ei ch'wilydd, – yfory  
Adferwn ei bröydd,  
A chynnal iaith ei chynnydd  
Yn daer i ennill y dydd.

Gronwy Wyn Owen



# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



## Cwpledi cofiadwy 2

Sypyn arall, y tro hwn, o gwpledi sydd ymhlith llawer iawn sydd wedi apelio ata i. Dw i bob amser yn llawn edmygedd o'r beirdd medrus hynny sy'n gallu dweud cymaint o fewn dwy linell fer (ac mi fydd y cyfarwydd yn eich plith yn sylwi eu bod, gan amlaf, yn saith sill yr un, yn odli ac yn cynnwys cynghanedd). O ran cynnwys, yr hyn sy'n ddiddorol ydi fod y rhan fwyaf ohonyn nhw naill ai'n traethu rhyw wirionedd oesol (yn wir ddoe, heddiw ac yfory) a hefyd, ar adegau, yn rhoi rhyw gyngor neu'i gilydd i'r darllynydd, gyda chyffyrddiad o hiwmor ambell dro. Gobeithiaf y cewch flas ar y casgliad bach a ganlyn:

I un gŵr mae'r hyn sy'n gall  
Yn wirion i un arall.

**D. Gwyn Evans**

I'r neb a gâr fro'i febyd  
Onid baich yw newid byd?

**Alan Llwyd**

Llawer milltir o hiraeth  
Y sydd mewn un ergyd saeth

**Huw Cae Llwyd**

Mae eisiau dyn cymwys, doeth  
I drin creadur annoeth.

**William T. Edwards (Gwilym Deudraeth)**

Melys heddwedi aml siom,  
Distawrwydd wedi storom.

*Ei feddagraff ei hun*

**D. Emrys James (Dewi Emrys)**

Na lunia air tu ôl i neb  
Na fynnit ef i'w wyneb.

**Emlyn Oswald Evans (Emlyn Afan)**

Ni bu haf heb ei ofid  
Na bore oer heb ei wrid.

**Roger Jones**

Ni sieryd oes a wŷr dau,  
Rhy fawr yw ef i eiriau.

**R. Williams Parry**

O wylltio'n fflam daw amarch;  
A gyll ei ben a gyll barch.

**Elwyn Edwards**

Pa ddiben gorffen y gwaith  
Heb ei orffen yn berffaith?

**Alan Llwyd**

'Rôl blino'n treiglo pob tref,  
Teg edrych tuag adref.

**Llawdden**

Segurdod yw clod y cledd,  
A rhwd yw ei anrhydedd.

**William Ambrose (Emrys)**

Wedi dweud gwendidau dyn,  
Dyweder y da wedyn.

**Morris Jones (Morris Cyfannedd)**

Y cyfaill gorau, cofia,  
A lleufer dyn yw llyfr da.

**Evan Evans (Ieuan Fardd)**

Gorffennaf gyda'r rhain (ac fe welwch nad ydyn nhw'n dilyn yr un patrwm â'r rhai uchod):

Os cregyn gwag fydd yn y sach,  
Cregyn ddaw allan, bobol bach.

**Richard Davies (Mynyddog)**

Ymffrostiaf bellach yn f'ymennydd pŵl, –  
Nid oes paradwys fel paradwys ffŵl.

**T. H. Parry-Williams**

Pe bai gynnoch chi enghreifftiau o gwpledi (neu benillion neu gerddi byrion) cofiadwy, teimlwch yn rhydd i'w hanfon ataf drwy e-bost i'r cyfeiriad a ganlyn: [johnelwyn@btinternet.com](mailto:johnelwyn@btinternet.com)

## Cyngor Gwynedd yn gwarchod bywyd gwyllt ymyl ffordd

Mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno newidiadau i'w dull o ymdrin a mylon ffyrdd yn y sir er mwyn gwarchod a hybu bioamrywiaeth.

Meddai'r Cynghorydd Catrin Wager, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Briffyrdd a Bwrdeistrefol: "Yn ôl adroddiad diweddar mae 41% o rywogaethau Cymru wedi gweld lleihad yn eu poblogaeth ers y 70au, ac mae 8% o'n rhywogaethau yn wynebu cael eu colli am byth (<https://nbn.org.uk/stateofnature2019/>).

"Mae gwarchod amgylchedd a rhywogaethau arbennig ein sir yn bwysig. Drwy newid y ffordd yr ydym yn rheoli'r tyfiant ar ochr ein ffyrdd, gallwn gael dylanwad positif ar foamrywiaeth.

"Mae'n bosib i mylon ffyrdd weithredu fel coridorau o gynefinoedd pwysig i gefnogi bob math o greaduriaid; o famaliaid bychain i wenyn a

gloynnod byw."

Yn draddodiadol, mae tuedd wedi bod o dorri mylon ffyrdd yn gynnar yn y gwanwyn sydd yn cael effaith ar eu gwerth fel llecynnau i gefnogi ein bioamrywiaeth. Eleni, bu oedi yn y toriad cyntaf, sydd yn rhoi cyfle i blanhigion flodeuo a hadu cyn torri'r gwair. Mae hyn yn hybu twf mewn blodau gwyllt, sydd nid yn unig yn edrych yn dlws, ond sydd hefyd yn gweithredu fel ffynhonnell fwyd a chynefin i nifer o rywogaethau.

Lle bosib, bydd y toriad cyntaf yma ond yn ymestyn 1 medr o'r ffordd, gan adael y gweddill fel cynefin. Bydd toriad llawn yn ystod diwedd yr Haf / Hydref unwaith mae'r blodau gwyllt wedi hadu i flwyddyn nesaf.

Fel rhan o'r ymgais i hybu bioamrywiaeth ar ochr ein ffyrdd, bydd y Cyngor hefyd yn lleihau ar ei ddefnydd o chwynladdwyr ac edrych ar

ddulliau gwahanol o reoli tyfiant a chwyn.

Meddai Lea Connelly, Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd: "Mae'r coridorau yma mor bwysig i foamrywiaeth Gwynedd. Mae'r blodau gwyllt yma nid yn unig yn hardd i'w gweld ar ochr y ffordd, ond yn ffynhonnell bwysig o fwyd i wenyn a pheillwyr eraill.

"Maent yn cefnogi cymaint o wahanol greaduriaid a planhigion ac yn cysylltu cynefinoedd gyda'i gilydd."

Meddai Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd: "Mae hwn yn gam mawr o ran hybu bioamrywiaeth ein sir, ac rwy'n falch ein bod yn gweithredu ar hyn. Wrth gwrs mae hefyd yn bwysig fod ein ffyrdd sirol yn saff, ac felly mae'n werth nodi y bydd trefniadau gwahanol mewn lleoliadau megis cyffyrdd, ger rhai cylchfannau

ac mewn lleoliadau ble mae llwybrau cerdded."

Ychwanegodd Cynghorydd Wager: "Mae wedi bod yn hyfryd gweld blodau gwyllt ar ein ffyrdd dros yr wythnosau diwethaf, gan wybod eu bod nid yn unig yn edrych yn dlws, ond hefyd yn cefnogi pob math o fywyd gwyllt. Rwy'n gobeithio y bydd trigolion y sir yn cytuno y bydd y trefniadau newydd yn llwyddo i gadw cydbwysedd rhwng gwarchod natur arbennig ein sir, a chadw defnyddwyr ein ffyrdd yn ddiogel."

Bydd Cefnffyrdd a mannau trefol, ble mae cyfyngiad 30 neu 40 milltir yr awr hefyd yn gweld patrymau torri gwahanol.

Mae'r drefn eisoes wedi dechrau yn ardal Dwyfor a bydd yn dechrau yn Arfon a Meirionydd tua ganol mis Mehefin. Mae torri mylon cefnffyrdd wedi dechrau ym mhob ardal ers dechrau Mehefin.

# Miss Charlesworth

Gan Andre Lomozik

Ddechrau mis Mai, derbynias gryno ddisg oddi wrth Arthur Rowlands, Pandy, Cefnddwysarn, Bala. Ar y ddisg 'roedd casgliad o luniau cardiau post. 'Roeddynt yn amrywio o luniau Bethesda, Biwmares, Llangefni, Llanberis, Llangollen, ac yn y blaen. 'Roedd bron i gant o gardiau yn y casgliad i gyd, ond tynnodd un cardyn fy sylw yn arbennig, sef yr un isod.



Mae'r ysgrifen ar y cardyn yn egluro mai dyma'r man lle digwyddodd damwain, a bod y groes yn dangos lle aeth modur y ferch trwy'r wal, a'r lle y syrthiodd hi ar y creigiau i'r môr. Ar gefn y cardyn roedd y geiriau hyn wedi ei ysgrifennu "Darlun o'r lle y darfu Miss Charlesworth honni ei bod wedi syrthio". 'Roedd hyn wedi codi diddordeb ynof i ddarganfod pwy oedd Miss Charlesworth, a phaham 'roedd y digwyddiad yma yn haeddu cael llun cardyn post ohono. 'Roedd yn amlwg o edrych ar y cardyn ei fod yn dyddio o ddechrau'r ganrif ddiwethaf, ac felly dyma fynd i chwilio am yr hanes. Ymddengys fod Miss Charlesworth wedi byw bywyd ychydig yn uwch na'i modd, a'i bod mewn trafferthion ariannol. 'Roedd yn ferch i David a Miriam Charlesworth, ac 'roedd ganddi frawd o'r enw Fred a dwy chwaer, sef Lilian a Miriam. Ganwyd wyth o blant i'r rhieni i gyd ond bu pedwar farw yn fabanod. 'Roeddynt yn byw yn Whittington, Derbyshire, yn ôl cyfrifiad 1891, ac 'roedd ei thad yn gweithio fel arolygwr gyda chwmni yswiriant y Prudential yno. Erbyn digwyddiad y ddamwain 'roedd ei thad wedi ymfudo i'r America a Violet a'i theulu yn byw yn Bod Erw yng nghyffiniau Abergele. Ar ddiwrnod y ddamwain 'roedd hi a'i chwaer, gyda gyrrwr y modur, wedi teithio i Fangor am y diwrnod, ac ar y ffordd adref penderfynodd Violet yrru'r modur gan ei bod yn yrrwr profiadol. Mewn adroddiad papur a ymddangosodd wedyn dywedodd Violet ei bod wedi brawychu ar ôl y ddamwain, gan nad oedd yn gallu dod o hyd i'w chwaer na gyrrwr y modur, felly dihangodd o'r lle, gan feddwl ei bod yn gyfrifol am eu marwolaeth. Cymerodd y trê'n o Gonwy i Criw ac yna i'r Alban, lle bu yn aros

am rai dyddiau cyn i'r heddlu ddod o hyd iddi, a'i hebrwng yn ôl i'w swyddfa er mwyn ei holi.

Dyma adroddiadau o'r newyddiaduron am y digwyddiadau:-

The Cambrian News & Merionethshire Standard Ionawr 8, 1909, t.5.


(Wedi ei gyfeithu) *Mewn damwain modur ger Llandudno dydd Sadwrn, darfu i Miss Charlesworth gael ei lluchio tros y dibyn i'r môr a'i golchi i ffwrdd gan y môr.*

Ar yr un dyddiad cawn yr adroddiad yma yn Y Dydd t.8:-

*Achosir cryn gyffro yn y papurau Seisnig y dyddiau hyn ynglyn â p'run a ydyw Miss Violet Charlesworth wedi ei lladd mewn damwain ar Penmaenbach, ger Penmaenmawr, nos Sadwrn. Ar y cychwyn tybid ei bod wedi cwmpo o'r Motor-car dros y dibyn i'r môr, a chredir hynny gan rai eto, ond amheuir hyn gan eraill. Anhawdd dweud beth sydd wedi digwydd. Yn rhyfedd iawn mae ei chwaer a'r gyrrwr yn hynod ddistaw ar y mater.*

Blwyddyn yn ddiweddarach cawn yr adroddiad yma o bapur Y Dydd, Chwefror 25, 1910, t. 8:- *Miss Charlesworth: Cof gan ein darllenwyr am yr helynt fu ynglyn â'r eneth uchod flwyddyn yn ôl, pan honid ei bod wedi mynd dros y dibyn ger Penmaenmawr fel canlyniad damwain i'w cherbyd modur. Ddoe, dygwyd hi a'i mam o flaen y barnwr ym Mrawdlys Derby ar gyhuddiad o gael £400 gan un Mrs Smith, Derby, trwy dwyll, a £5,430 oddiar Dr E. H. Jones, Rhyl, - dywedai ei bod yn dod i "fortune" pan yn 25 oed. Anfonwyd hi a'i mam i garchar am 5 mlynedd.*

Gostyngwyd y ddedfryd i dair blynedd ar ôl i'r barnwr ail ystyried y ddedfryd. Rhyddhawyd Violet Charnesworth o'r carchar yn y flwyddyn 1912, ac nid oes gwybodaeth amdani ar ôl y dyddiad yma.



**Cwis**  
Atebion

## Atebion i Gwis Llais Ogwan Mis Mai

A: Annes Glynn	B: Braichmelyn	C: Caerhun
D: Doyle	E: Elen	F: Felinhen
FF: Ffynnon	G: Glanogwen a Gelli	H: Huw Derfel Hughes
I: Ieuan Wyn	J: J.O.Williams a Jennie Thomas	L: Londis
LL: Llechen Las	M: Moelyci	N: Nant y Benglog
O: Orwig	P: Pandy	R: R. Williams Parry
RH: (Gruff) Rhys	S: Sling	T: Tansgrafell
W: Weiren Wib	Y: Yr Hen Orsaf	

